



Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER

Ministry of
JUSTICE


Gweddnewid sut mae beiliaid yn gweithredu

Sut y byddwn yn darparu mwy o
amddiffyniad rhag beiliaid ymosodol
ac annog mwy o hyblygrwydd pan
fydd beiliaid yn casglu dyledion

Ymateb y Llywodraeth

Ymateb i Ymgynghoriad CP(R)12/2013

Cyhoeddwyd yr ymateb hwn ar 25 Ionawr 2013





Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER
Ministry of
JUSTICE

Gweddnewid sut mae beiliaid yn gweithredu

Sut y byddwn yn darparu mwy o amddiffyniad rhag beiliaid ymosodol ac annog mwy o hyblygrwydd pan fydd beiliaid yn casglu dyledion

Ymateb y Llywodraeth

Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder:
www.justice.gov.uk

Cynnwys

Rhagair Gweinidogol	Error! Bookmark not defined.
Cyflwyniad a manylion cyswllt	Error! Bookmark not defined.
Y cyd-destun	Error! Bookmark not defined.
Crynodeb o'r ymatebion	Error! Bookmark not defined.
Crynodeb o'r argymhellion	Error! Bookmark not defined.
Y camau nesaf	Error! Bookmark not defined.
Dadl bolisi ac argymhellion	Error! Bookmark not defined.
Ystyriaethau o ran cydraddoldeb	Error! Bookmark not defined.
Dadansoddiad o'r ymatebion	Error! Bookmark not defined.
Meini prawf ymgynghori	Error! Bookmark not defined.
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr	72
Atodiad B – Ymgysylltu â rhanddeiliaid	73

Gweddnewid sut mae beiliaid yn gweithredu Ymateb i'r ymgynghoriad

Rhagair Gweinidogol



Mae beiliaid yn angenrheidiol i'r economi ac i'r system gyfiawnder. Byddant yn cyflawni rôl anodd mewn amgylchiadau sy'n aml yn gryn her iddynt, a bydd y rhan fwyaf yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol a chymesur. Er hynny, mae lleiafrif arwyddocaol yn ymddwyn yn fygythiol, yn trin dyledwyr yn annheg ac yn achosi gofid diangen, gan ddifetha enw da'r mwyafrif. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i roi mwy

o amddiffyniad rhag beiliaid diegwyddor o'r fath a'r dulliau diffygiol, annigel neu annheg y maent yn eu defnyddio, gan sicrhau yr un pryd fod modd casglu dyledion yn deg o hyd. Y diwygiadau sydd wedi'u disgrifio yn yr adroddiad hwn yw'r cam nesaf wrth gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Mae'r mesurau a gynigiwn yn gwneud y gyfraith yn gliriach, yn cyflwyno strwythur ffioedd tryloyw ac yn rheoleiddio'r diwydiant. Bydd dyledwyr a chredydwyr yn gallu deall eu hawliau'n rhwydd a gallant fod yn dawel eu meddwl nad oes lle i rym corfforol anghyfreithlon. Bydd safonau ymddygiad yn cael eu sicrhau drwy system hyfforddiant gorfodol a safonau priodol i rai sy'n ymuno â'r proffesiwn. Bydd y cyhoedd yn cael gwell gwybodaeth a chyfarwyddyd i sicrhau eu bod yn gwybod pwy i droi ato am gymorth os aiff rhywbeth o'i le, a hefyd beth yw eu hawliau.

Bydd hyn i gyd wedi'i seilio ar reoleiddio effeithiol, pwrpasol a fydd yn sicrhau bod cymorth ar gael os aiff pethau o chwith.

Gyda'i gilydd, mae ein cynigion yn symleiddio'r broses gorfodi ac yn ei gwneud yn gliriach, gan wneud asiantau gorfodi'n fwy atebol a delio â gweithgarwch gorfodi sy'n ddiangen neu'n amhriodol.

Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos mai'r rhain yw'r union fath o newidiadau sydd eu hangen yn y maes hwn i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng bodloni anghenion credydwyr ac amddiffyn rhag beiliaid diegwyddor, gan gadw gwerth y broses gorfodi ac adfer ymddiriedaeth y cyhoedd ynddi. O ganlyniad i hyn, bydd busnesau, unigolion a beiliaid yn elwa o'r newidiadau hyn, a byddwn yn symud ymlaen i'w cyflawni'n ddi-oed.

Rydym yn diolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid sy'n parhau i roi cymorth a chefnogaeth i roi'r newidiadau hyn ar waith.

Gweddnewid sut mae beiliaid yn gweithredu Ymateb i'r ymgynghoriad

Helen Grant

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgyngori ar y papur ymgynghori 'Gweddnewid sut mae beiliaid yn gweithredu'.

Mae'n cynnwys:

- gwybodaeth am gyd-destun yr ymgynghoriad;
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad;
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr ymgynghoriad;
- gwybodaeth am y camau nesaf ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Gellir cael mwy o gopïau o'r adroddiad hwn ac o'r papur ymgynghori drwy gysylltu â **Judith Evers** yn y cyfeiriad isod:

**Civil Justice and Legal Services Policy
Ministry of Justice
Postpoint 4.37, 102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ**

Ffôn: 020 3334 3182

Ffacs: 0870 739 4268

E-bost: EnforcementReform.TCE@justice.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd ar wefan y Weinyddiaeth:
www.justice.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i:
EnforcementReform.TCE@justice.gsi.gov.uk 020 3334 3182.

Y cyd-destun

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Gweddnewid sut mae beiliaid yn gweithredu' ar 17 Chwefror 2012. Roedd yn gofyn am sylwadau am gynigion y Llywodraeth ar gyfer gweddnewid y ffordd y mae beiliaid yn gweithredu a rhoi mwy o amddiffyniad rhag beiliaid ymosodol.

Nod y cynigion oedd:

- rhoi mwy o amddiffyniad rhag beiliaid ymosodol gan gadw system effeithiol;
- sicrhau trefn gostau sy'n deg, tryloyw a chynaliadwy ac sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol ddigonol;
- darparu system reoleiddio gymesur sydd wedi'i thargedu ar y meysydd lle y mae angen gweithredu.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 14 Mai 2012 ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion, gan ddangos sut y mae'r broses ymgynghori wedi dylanwadu ar y polisi terfynol. Mae hefyd yn nodi meysydd lle y mae angen mwy o ddatblygu ar y cynigion yn y papur ymgynghori.

Mae'r Asesiad o Effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn wedi'i ddiweddarau er mwyn ystyried tystiolaeth a gafwyd yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Mae rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.

Cafwyd mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae rhestr o'r cyfarfodydd yn Atodiad B.

Crynodeb o'r ymatebion

1. Cafwyd 254 o ymatebion i'r papur ymgynghori. Roedd 19 o ymatebwyr a oedd heb ateb unrhyw gwestiynau penodol ac wedi rhoi sylwadau cyffredinol yn unig. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb.
2. Mae rhestr isod o gategoriâu'r ymatebwyr.

Categori	Nifer yr ymatebion
Y sector cynghori	30
Credydwr preifat (<i>busnesau, landlordiaid preifat, cwmnïau eiddo, gwasanaethau cyfreithiol sydd â chleientiaid sy'n gredydwyr yn y sector preifat</i>)	20
Credydwr cyhoeddus (<i>awdurdodau lleol, asiantaethau llywodraeth, y gwasanaeth llysoedd</i>)	96
Dyledwr (<i>unigolion neu gwmnïau sydd wedi nodi bod ganddynt brofiad o fod yn ddyledwr</i>)	6
Y sector gorfodi (<i>cwmnïau asiantau gorfodi, asiantau gorfodi unigol, cyflenwyr y sector gorfodi</i>)	45
Y Farnwriaeth	6
Aelodau Seneddol	1
Aelodau o'r Cyhoedd (<i>unigolion sydd heb nodi a ydynt yn gredydwyr neu'n ddyledwyr</i>)	31
Cyrff Ombwdsmyr (<i>gwasanaethau ombwdsmyr</i>)	4
Cyrff Cynrychiadol (<i>undebau llafur, grwpiau lobi, cymdeithasau proffesiynol ar gyfer credydwyr, dyledwyr, y sector gorfodi a'r sector cyhoeddus</i>)	15

3. Dadansoddwyd yr ymatebion er mwyn canfod dewisiadau posibl yn lle'r cynigion a oedd wedi'u hawgrymu, tystiolaeth o effaith y cynigion, a maint y gefnogaeth i'r egwyddorion cyffredinol.

Crynodeb o'r argymhellion

4. Mae'r adroddiad hwn yn trafod y cynigion sydd wedi'u disgrifio yn y papur ymgynghori "Gweddnewid sut mae beiliaid yn gweithredu". Mae'n cynnwys 19 o argymhellion sydd wedi'u gwneud ar ôl ystyried yr ymatebion i'r papur hwnnw a hefyd yr ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y broses ymgynghori. Mae crynodeb isod o nifer o'r argymhellion allweddol.
5. Fel y nodwyd yn y papur ymgynghori, mae'r Llywodraeth yn credu y gellir amddiffyn rhag gweithredu ymosodol gan asiantau gorfodi drwy ddelio â'r canlynol:
 - camgyfleu awdurdod cyfreithiol yr asiant gorfodi;
 - codi ffioedd gormodol;
 - ymddygiad bygythiol gan asiantau gorfodi.
6. Ar ôl ymgynghori, mae'r Llywodraeth yn credu y gellir delio â'r materion hyn drwy weithredu Rhan 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (argymhelliad 1).
7. Fel y nodwyd yn y papur ymgynghori, mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu delio â'r diffygion yn y rhan hon o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 a byddwn yn ceisio gwneud y diwygiadau angenrheidiol cyn gynted ag y bydd amser seneddol ar gael (argymhellion 2 a 3).
8. Ar ôl ymgynghori, byddwn hefyd yn gwneud y mân newidiadau canlynol yn y rheoliadau drafft "Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau" a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad:
 - newid y cyfnod rhybudd lleiaf ar gyfer adennill pob math o ddyled yn saith diwrnod, gan gynnwys Adennill Ôl-ddyledion Rhent Masnachol (argymhelliad 6);
 - caniatáu gwerthu ar y safle ar gyfer pob math o ddyledion busnes (argymhelliad 11).
9. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo o hyd i gyflwyno strwythur ffioedd clir a thryloyw sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol ddigonol. Er mwyn cyflawni hyn bydd y Llywodraeth:
 - yn cyflwyno gweithgareddau craidd, grwpiau o weithgareddau a symiau'r ffioedd, yn unol â'r papur ymgynghori, gan ddarparu cam ar gyfer dileu ffioedd os bydd angen (argymhelliad 13);
 - yn gosod y trothwy ar gyfer ffioedd canrannol mewn achosion dyled heblaw rhai'r Uchel Lys ar £1,500 (argymhelliad 14);

- lle y mae nifer o warantau'n cael eu gorfodi yr un pryd, yn sicrhau bod ffioedd cydymffurfio ar wahân yn cael eu codi ond dim ond un ffi gorfodi (argymhelliad 15);
 - yn cyflwyno dau strwythur ffioedd ar wahân – ar gyfer achosion dyled yr Uchel Lys ac achosion dyled heblaw rhai'r Uchel Lys (argymhelliad 16).
10. Roedd y papur ymgynghori'n egluro'r nod o sicrhau amddiffyniad effeithiol i bobl fregus a hefyd o leihau rheoleiddio gormodol ar fusnesau. Er mwyn sicrhau cydbwysedd o'r fath, bydd y Llywodraeth:
- yn gweithredu adran 64 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ac yn llunio rheoliadau ynghylch rheoleiddio asiantau gorfodi (argymhelliad 18);
 - yn pennu maen prawf cymhwysedd ar gyfer ymuno â phroffesiwn yr asiantau gorfodi ac yn cyflwyno system hyfforddiant gorfodol (argymhelliad 19).

Y camau nesaf

11. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â gweithgarwch ymosodol a diangen gan feiliaid heb amharu ar waith gorfodi cymesur ac effeithiol. Mae'r broses o ymgynghori a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn rhan o raglen waith gydgysylltiedig ar draws Llywodraeth a'r camau a gymerwyd hyd yn hyn yw cyhoeddi Safonau Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Asiantau Gorfodi; darparu arweiniad wedi'i ddiweddarau i'r cyhoedd ar UK.gov; ac ystyried y posibilrwydd o gyhoeddi arweiniad ynghylch sut y dylai Cynghorau weithio gyda phobl fregus sydd mewn dyled.
12. Mae angen gwaith gorfodi effeithiol er mwyn sicrhau hyder yn y system gyfiawnder sifil yn gyffredinol. Mae'r Llywodraeth wedi datgan yn glir fod angen o hyd i gamau gorfodi fod ar gael drwy atafaelu a gwerthu nwyddau gan asiantau gorfodi er mwyn talu dyled. Gall dyledwyr osgoi'r camau hyn ac, os yw'n bosibl, dylent weithredu er mwyn eu hosgoi. Mae'n cael ei dderbyn, fodd bynnag, os cymerir camau gorfodi o'r fath, y dylai dyledwyr gael eu trin mewn ffordd deg a chymesur.
13. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i roi mwy o amddiffyniad rhag beiliaid ymosodol. Roedd darpariaeth yn y cytundeb clymblaid ar gyfer darparu mwy o amddiffyniad rhag beiliaid ymosodol. Yn yr Adolygiad Canol Tymor a gynhaliwyd yn ddiweddar, ailddatganodd y Llywodraeth yr ymrwymiad i roi mwy o amddiffyniad rhag beiliaid diegwyddor gan sicrhau yr un pryd fod modd casglu dyledion yn deg o hyd.

Beth fyddwn yn ei wneud nesaf

14. Byddwn yn ceisio cael amser seneddol i ddelio â'r diffygion yn Rhan 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.
15. Byddwn yn llunio set derfynol o reoliadau i'n galluogi i weithredu'r darpariaethau yn Rhan 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 gan gynnwys rheoliadau sy'n pennu'r strwythur ffioedd a'r weithdrefn ardystio well, a hefyd yn datblygu rheolau llys i'w hategu. Y bwriad yw paratoi set lawn o reoliadau erbyn haf 2013.
16. Er mwyn cwblhau'r rheoliadau, bydd angen i ni sefydlu gweithgor a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob grŵp o randdeiliaid i ystyried y materion sydd heb eu penderfynu a chyfrannu at yr adolygiad ôl-weithredu.

Costau Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Gorfodi

17. Bydd angen i ni lunio rheoliadau sy'n pennu'r strwythur ffioedd newydd.

Trefn Reoleiddio

18. Byddwn yn llunio rheoliadau i'n galluogi i weithredu adran 64 o Ran 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid yn y sectorau gorfodi a chynghori i ddatblygu cynnwys y rheoliadau a byddwn yn cydweithio hefyd â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r farnwriaeth ar weithdrefnau'r llysoedd.

Gofynion Cymhwysedd

19. Byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid yn y sectorau gorfodi a chynghori yn ogystal â'r darparwyr hyfforddiant presennol wrth ddatblygu cynnwys y gofynion cymhwysedd. Byddwn yn adeiladu ar sail hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu er mwyn lleihau unrhyw feichiau ychwanegol diangen ar fusnesau. Y bwriad yw cwblhau'r gofynion cymhwysedd ar gyfer hyfforddiant erbyn haf 2013.

Camau Unioni a Delio â Chwynion

20. Byddwn yn sefydlu gweithgor a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr pob un o'n rhanddeiliaid a chynrychiolydd o swyddfa Ombwdsmon Llywodraeth Leol i ddatblygu dull clir o drafod cwynion er mwyn sicrhau camau unioni priodol.

Sicrhau bod pob parti'n ymwybodol o'i hawliau a'i gyfrifoldebau

21. Byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid ar gynnwys yr hysbysiadau a'r rhybuddion a hefyd yn ystyried pa daflenni neu arweiniad arall y dylid eu datblygu i helpu'r holl bartïon.
22. Mae angen mwy o waith i sicrhau mai dim ond pan fydd credydwr yn credu bod hynny'n angenrheidiol y bydd dyledion yn cael eu trosglwyddo i asiantau gorfodi. Nid mater i'r asiant gorfodi yw penderfynu pa ddyledion a gaiff eu hatgyfeirio ato er mwyn cymryd camau – mae hynny'n fater i'r credydwr.
23. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r Gweithgor yr ydym wedi'i sefydlu i ystyried y Safonau Cenedlaethol a gwefan y Llywodraeth er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi digon o sylw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan gynnwys yr angen i barchu sensitifrwydd diwylliannol a gwyliau a dathliadau crefyddol.
24. Mae dyletswydd gofal gan y credydwr a'r asiant gorfodi tuag at bobl fregus. Byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid, gan gynnwys y sector cynghori, awdurdodau lleol a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i ddatblygu gwell ffordd o bennu sefyllfaoedd lle y mae pobl yn agored i niwed.

Dadl bolisi ac argymhellion

25. Ein nod yw parchu hawliau credydwyr a dyledwyr. Os na cheir gorfodi prydlon ac effeithiol, bydd awdurdod y llysoedd a hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder yn cael eu tanseilio. Mae hawl gan gredydwyr i gasglu'r hyn sy'n ddyledus iddynt tra dylai dyledwyr gael eu hamddiffyn rhag camau gorthrymus i adennill dyled.
26. Ar hyn o bryd mae'r gyfraith a'r strwythurau costau sy'n ymwneud â gorfodi drwy atafaelu a gwerthu nwyddau'n gymhleth, yn aneglur ac yn ddryslyd. Gall hyn arwain at sefyllfa lle y mae asiantau gorfodi'n camgyfleu eu hawdurdod cyfreithiol er anfantais i ddyledwyr. Mae'r strwythurau costau presennol yn aneglur, yn anodd eu dehongli mewn rhai pethau ac nid ydynt yn rhoi cydnabyddiaeth ariannol ddigonol am bob agwedd ar waith gorfodi. Gyda'i gilydd mae'r ffactorau hyn yn peri bod y broses bresennol ar gyfer codi tâl yn agored i'w chamddefnyddio.
27. Cafwyd galwadau ers tro am wneud y gyfraith yn gliriach, am gyflwyno strwythur ffioedd tryloyw ac am reoleiddio'r diwydiant.
28. Y bwriad a nodwyd yn y papur ymgynghori oedd y byddai unrhyw gyfundrefn ar gyfer asiantau gorfodi:
 - yn gwneud y gyfraith yn gliriach ac yn symlach er mwyn delio ag asiantau gorfodi sy'n camgyfleu eu pwerau;
 - yn uno'r gyfraith er mwyn delio â natur amrywiol a chymhleth y ddeddfwriaeth ac is-ddeddfwriaeth bresennol a chyfraith gwlad, sy'n gallu peri dryswch;
 - yn cydbwysu hawliau a chyfrifoldebau'r credydwr a'r dyledwr, sydd weithiau'n cystadlu â'i gilydd;
 - yn sefydlu'r defnydd o ffyrdd llai ymwthiol o gymryd rheolaeth dros nwyddau;
 - yn cadarnhau'r hawliau a chyfrifoldebau sydd gan ddyledwyr, credydwyr ac asiantau gorfodi pan fydd yn rhaid cymryd camau gorfodi i adennill dyledion.
29. Mae'r strwythur rheoleiddio presennol ar gyfer asiantau gorfodi yng Nghymru a Lloegr yn dameidiog iawn. Mae cynigion i ddelio â hyn yn yr adroddiad hwn sy'n cynnwys mesurau i godi safonau proffesiynol yr unigolion sydd yn y diwydiant gorfodi ac i bennu gofynion cymhwysedd ar gyfer ymuno â'r proffesiwn.
30. Y bwriad yw gweithredu Rhan 3 (sy'n cynnwys Atodlenni 12 a 13) o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth dan y darpariaethau hynny, sef y Rheoliadau Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau, er mwyn:

- uno'r gyfraith a'i gwneud yn fwy eglur;
 - cyflwyno strwythur ffioedd newydd;
 - cyflwyno proses ardystio newydd ac estynedig.
31. Mae cyswllt anorfod rhwng y tair darpariaeth hyn ac nid yw'n ymarferol eu gweithredu ar wahân. Mae'r elfennau hyn yn cael eu cynnig fel pecyn o ddiwygiadau.
32. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r saith thema allweddol (sydd wedi'u rhestru isod) y gofynnwyd am farn amdanynt yn yr ymgynghoriad:
- i. Opsiynau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio
 - ii. Defnyddio grym
 - iii. Trin unigolion bregus
 - iv. Camau gorfodi
 - v. Ffioedd gorfodi
 - vi. Trefn reoleiddio
 - vii. Camau unioni a delio â chwynion.
33. Mae dadansoddiad o'r ymatebion i bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad yng nghefn yr adroddiad hwn.
34. Roedd y papur ymgynghori'n trafod y polisi manwl ar y gyfraith a ffioedd yn y maes hwn ac, yn ôl y disgwyl, roedd gwahaniaeth barn am faint a natur y diwygiadau.
35. Roedd cytundeb cyffredinol ymysg ymatebwyr ym mhob categori fod angen diwygio oherwydd natur gymhleth y gyfraith bresennol sy'n ymwneud â gorfodi. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r canlynol hefyd:
- Sicrhau na all asiantau gorfodi byth arfer pŵer i ddefnyddio grym yn erbyn unigolyn;
 - Diffiniad manwl o'r ffyrdd o gael mynediad ac ailfynediad;
 - Strwythur ffioedd clir gan gynnwys polisi dileu ffioedd;
 - Cyflwyno meini prawf cymhwysedd a hyfforddiant gorfodol ar gyfer asiantau gorfodi unigol.

Opsionau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio

36. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr nad oedd dadl o blaid lleihau'r rheoleiddio ar y diwydiant gorfodi. Fodd bynnag, mae'r sector cynghori'n parhau i ofyn am reoleiddio annibynnol llawn ar y diwydiant ac mae hyn yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr fod angen mwy o ymyrraeth gan Lywodraeth gan mai cod gwirfoddol yn unig oedd y Safonau Cenedlaethol. (Cwestiwn 2)

“Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Asiantau Gorfodi'n god gwirfoddol heb unrhyw fonitro ar gydymffurfiaeth na sancsiynau effeithiol os bydd beiliaid yn mynd yn groes i'r safonau... Dylid ystyried y safonau cenedlaethol yn atodiad defnyddiol i ddeddfwriaeth ond, yn sicr, nid yn rhywbeth a wnaiff yn lle system statudol effeithiol.” Sector cynghori

“Mae'r gyfraith bresennol yn gymhleth ac amrywiol, gyda gwahanol ddeddfwriaeth a ffioedd ar gyfer gwahanol fathau o ddyled. Mae angen strwythur mwy tryloyw a hawdd ei ddeall er mwyn gwneud gwaith gorfodi'n fwy effeithlon a gwella canfyddiad y cyhoedd.” Sector gorfodi

“Teimlwn fod angen y rheoliadau newydd er mwyn symleiddio'r broses i ddyledwyr a chreu mwy o amddiffyniad o fewn y diwydiant beiliaid.” Credydwr cyhoeddus

37. Felly byddwn yn symud ymlaen i wneud newidiadau yn y gyfraith a'r ffioedd presennol sydd wedi'u nodi'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 1

Gweithredu'r darpariaethau yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 i symleiddio'r gyfraith a ffioedd a'u gwneud yn gliriach.

Gwybodaeth am asiantau gorfodi

38. Mae'n glir o'r ymatebion fod angen darparu gwybodaeth eglur am asiantau gorfodi. Dylai hyn gynnwys arweiniad sy'n fwy manwl na'r ddeddfwriaeth a gwybodaeth am y canlyniadau posibl i ymweliad gan asiant gorfodi.
39. Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Asiantau Gorfodi wedi'u bwriadu i'w defnyddio gan bob asiant gorfodi, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, yr asiantaethau gorfodi sy'n eu cyflogi a'r credydwyr mawr sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Er mwyn gwella canfyddiad y cyhoedd o'r proffesiwn, rhaid cynnal safonau uchel o ran moeseg ac arferion busnes ymysg asiantau gorfodi a'r rheini sy'n eu cyflogi, neu'n defnyddio eu gwasanaethau.
40. Mae'r Safonau Cenedlaethol yn ganllawiau cenedlaethol ac nid ydynt yn cymryd lle cytundebau lleol, codau ymarfer presennol yr asiantaethau na

deddfwriaeth. Yn hytrach, maent yn dangos beth y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a gweithredwyr yn y diwydiant yn eu hystyried yn safonau sylfaenol ac, oherwydd hynny, maent yn cyfrannu at y gwaith o weddnewid y ffordd y mae beiliaid yn gweithredu. Nid ydynt yn rhwymo mewn cyfraith, ond maent yn arf defnyddiol i'r diwydiant ac i gredydwy'r a'r gobaith yw y byddant yn cael eu hystyried wrth wneud trefniadau contractio.

41. Cyhoeddwyd Safonau Cenedlaethol diwygiedig gan y Llywodraeth yn Ionawr 2012 a hyn oedd y cam cyntaf ar gyfer gweddnewid y ffordd o weithredu gan feiliaid. Rhan o'r amcan wrth eu cyhoeddi oedd atgoffa credydwy'r ac asiantau gorfodi am eu cyfrifoldebau.
42. Ochr yn ochr â'r Safonau Cenedlaethol diwygiedig, diweddarwyd y wybodaeth ar GOV.UK (sef y wefan swyddogol yn lle Directgov a Business Link sy'n cynnig gwasanaethau llywodraeth a gwybodaeth) sy'n rhoi arweiniad ar asiantau gorfodi i ddyledwyr a chredydwy'r. Mae'r arweiniad hwn yn cynnig gwybodaeth hefyd ynghylch lle y gall pobl droi am gymorth os ydynt yn teimlo bod asiantau gorfodi wedi ymddwyn mewn ffordd annerbyniol tuag atynt.
43. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am sylwadau am y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar GOV.UK ac am y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Asiantau Gorfodi. Gofynnwyd yn benodol a oedd hyn, ynghyd â'r gyfraith bresennol, yn ddigon i ddelio â'r problemau yng nghyswllt asiantau gorfodi neu a oedd angen mwy o ymyrraeth gan lywodraeth, fel yr oeddem yn cynnig yn y papur ymgynghori. (Cwestiynau 1 a 3)
44. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr fod cynnwys presennol y Safonau Cenedlaethol yn briodol. Er hynny, nododd nifer ohonynt fod bylchau yn y wybodaeth sydd ynddynt a chafwyd awgrymiadau ganddynt am wybodaeth i'w chynnwys.
45. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr wedi nodi bod bylchau yn yr ystod o wybodaeth sydd ar gael am feiliaid ar wefan y Llywodraeth. Yn yr un modd â'i sylwadau am y Safonau Cenedlaethol, rhoddodd y sector cynghori awgrym am wybodaeth ychwanegol i'w chynnwys gan gynnig y dylai gwybodaeth fod ar gael mewn print yn ogystal â ffurf electronig er mwyn peidio â chreu anfantais i'r rheini sy'n fwyaf agored i niwed ac wedi'u hallgáu'n ddigidol.
46. Rydym wedi sefydlu gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr y sector gorfodi, cyrff credydwy'r a'r sector cynghori er mwyn sicrhau bod y Safonau Cenedlaethol a gwefan y Llywodraeth yn cael eu newid i gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ac angenrheidiol. Bydd y Safonau Cenedlaethol a'r wefan yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

Grym

47. Mae Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, yn ôl ei geiriad presennol, yn rhoi pŵer i asiantau gorfodi i ddefnyddio grym yn erbyn unigolyn, yn dileu pwerau **presennol** i ddefnyddio grym rhesymol wrth gael mynediad neu ailfyndiad i eiddo heb gael awdurdod barnwrol penodol o flaen llaw ac yn creu diffiniad rhy gyfyng o 'abandonment'. Pe na byddem yn cywiro'r diffygion hyn, byddem yn rhoi cyfle i ddyledwyr masnachol osgoi camau gorfodi, yn tansellio effeithiolrwydd y system, ac efallai'n cymell beiliaid i beidio â negodi cytundebau â dyledwyr gan greu'r posibilrwydd o fwy o ymddygiad ymosodol.
48. Roedd y papur ymgynghori'n trafod y diffygion hyn ac yn gofyn i ymatebwyr ystyried sut i wella'r darpariaethau hyn.
49. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr na ddylai asiantau gorfodi byth ddefnyddio grym yn erbyn unigolyn. Teimlai rhai ymatebwyr y dylid caniatáu defnyddio grym rhesymol os oedd angen hunanamddiffyn. Fodd bynnag, dylai'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch hunanamddiffyn fod yn ddigonol mewn achosion o'r fath. (Cwestiwn 4)

"Ni allwn ragweld unrhyw amgylchiadau lle y byddai cyfiawnhad dros ddefnyddio grym yn erbyn unigolyn. Mae'r cyfreithiau presennol ynghylch hunanamddiffyn yn fwy na digon." Sector gorfodi

"Rydym yn cytuno na ellir byth goddef defnyddio grym yn erbyn unigolyn. Yr unig eithriad fyddai hunanamddiffyn rhag dyledwr treisgar wrth i feili adael y fan." Sector cynghori

Argymhelliad 2

Byddwn yn ceisio cael amser seneddol i wneud y diwygiadau angenrheidiol i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 i atal y defnydd o rym yn erbyn unigolyn.

50. Mae angen gwaith gorfodi effeithiol er mwyn sicrhau bod dyledion a dirwyon yn cael eu talu. Pe byddai proses llys ychwanegol yn cael ei chyflwyno lle y byddai asiant gorfodi'n gorfod gofyn am awdurdod gan y llys i ddefnyddio grym i sicrhau na fydd dyledwr sy'n gwrthod talu'n osgoi camau gorfodi, byddai hynny'n arwain at oedi diangen, cost ychwanegol a'r perygl o danseilio effeithiolrwydd y system.
51. Felly roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn am ddiwygiadau posibl i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Pwrpas y diwygiadau arfaethedig oedd adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a'i gwneud yn gliriach. Roeddent yn dangos yn glir ym mha amgylchiadau y mae pwerau cyffredinol ar gael i ddefnyddio grym rhesymol a hefyd yn pennu terfynau clir. Y cynigion yn y papur ymgynghori oedd:

- darparu pŵer cyffredinol i asiant gorfodi sy'n gweithredu ar ddyled o dan awdurdod yr Uchel Lys neu lys sirol i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd angen, wrth gael mynediad i unrhyw eiddo busnes;

(Cwestiwn 7)

- darparu pŵer cyffredinol i asiant gorfodi i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd angen, wrth gael ailfynediad lle y mae nwyddau wedi'u cymryd dan reolaeth drwy gytundeb nwyddau dan reolaeth a'r dyledwr wedi methu cydymffurfio â'r telerau a oedd wedi'u gosod ar gyfer ad-dalu.

(Cwestiwn 10)

52. Cafwyd ymateb cymysg i'r cynigion hyn a'r awgrym gan rai oedd bod hyn yn rhoi mwy o bwerau i'r asiant gorfodi. Mae'r Llywodraeth wedi datgan yn glir nad yw hyn yn golygu rhoi mwy o bŵer ond ei fod yn hytrach yn gam angenrheidiol i gadw'r sefyllfa bresennol lle y mae Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys a beiliaid y llys sirol yn cael defnyddio grym rhesymol i fynd i mewn i eiddo busnes, yn ogystal ag unrhyw feili sydd wedi cael meddiant ar droed.
53. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod y pŵer cyffredinol i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd angen, wrth gael mynediad i unrhyw eiddo busnes yn bŵer a ddylai fod ar gael ar gyfer pob math o ddyled heb ei gyfyngu. Byddai hyn yn ychwanegu at y pwerau mynediad presennol ac mae'r Llywodraeth wedi datgan yn glir nad oes bwriad i gynyddu unrhyw bwerau mynediad ar hyn o bryd.
54. Mae proses newydd wedi'i chreu i sicrhau na fydd pwerau'n cael eu creu'n ddiangen ac y bydd llai o ymwithio i gartrefi pobl heb fod angen. Mae adrannau ac asiantaethau Llywodraeth yn gorfod rhoi ystyriaeth lawn i'r angen am unrhyw bwerau, eu cymesuredd a'r mesurau diogelu sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r pwerau dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 a'r diwygiadau arfaethedig wedi'u hystyried drwy'r broses hon ac wedi cael eu cymeradwyo.

Argymhelliad 3

Byddwn yn ceisio cael amser seneddol i ddiwygio Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 er mwyn rhoi pŵer i asiant gorfodi:

- i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd angen, i fynd i mewn i unrhyw eiddo busnes wrth weithredu ar ddyled o dan awdurdod yr Uchel Lys neu lys sirol;
- i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd angen, i gael ailfynediad i unrhyw eiddo:
 - lle y mae'r asiant gorfodi wedi cymryd rheolaeth dros y nwyddau drwy wneud cytundeb nwyddau dan reolaeth;
 - lle y mae'r dyledwr wedi methu cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y cytundeb nwyddau dan reolaeth sy'n ymwneud â thalu'r ddyled gan y dyledwr;
 - lle y mae'r dyledwr wedi cael hysbysiad am fwriad yr asiant gorfodi i fynd i mewn i'r eiddo i archwilio'r nwyddau neu eu symud er mwyn eu storio neu eu gwerthu.

55. Roedd y papur ymgynghori hefyd yn gofyn am farn am yr amodau rhagnodedig y dylai'r llys ystyried eu gosod wrth roi'r awdurdod i asiant gorfodi i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd angen, os nad yw'n briodol rhoi pŵer cyffredinol. (Cwestiynau 5, 6, 8 a 9)
56. Cafwyd ymateb cymysg ar draws y sectorau i'r amodau rhagnodedig sydd wedi'u cynnig. Mae'r ymatebion yn mynegi pryder y byddai hyn yn gallu caniatáu i ddyledwyr osgoi camau gorfodi.
57. Bydd asiantau gorfodi sy'n casglu dyledion Cyllid a Thollau EM yn gallu gwneud cais i'r llys am awdurdod barnwrol i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd angen, fel y gallant ar hyn o bryd. Ar ôl ystyried yr ymatebion mae'r Llywodraeth yn credu bod yr amodau rhagnodedig sydd wedi'u cynnig yn briodol.

Bregusrwydd

58. Mae'r Llywodraeth wedi datgan yn glir y bydd mesurau diogelwch i amddiffyn y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas rhag camau gorfodi ymosodol. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn ynghylch a oedd angen diffinio bregusrwydd yn y rheoliadau a gofynnodd am farn ynghylch diffiniad a fyddai'n ymarferol. (Cwestiwn 28)
59. Er nad oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid diffinio bregusrwydd yn y rheoliadau, roedd y farn ym mhob categori o ymatebwyr yn gymysg. Roedd rhai o'r farn bod angen cael diffiniad clir o fregusrwydd tra oedd eraill yn awgrymu y byddai llai o amddiffyniad i bobl fregus drwy fod yn rhy gyfarwyddol, ac y byddai'n troi'n broses o dicio blychau yn hytrach

na gwneud asesiad ar sail gwybodaeth ym mhob achos. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr ei bod yn anodd diffinio bregusrwydd.

"Mae bregusrwydd yn derm anodd ei ddiffinio a byddai rhestr fel yr un yn y Safonau Cenedlaethol yn gallu bod yn rhy niwlog. Wrth restru grwpiau penodol sydd i'w hystyried yn fregus, mae perygl na fyddai grwpiau sydd heb eu cynnwys yn cael eu hystyried neu y byddai hyn yn cyfyngu ar y cyfle i awdurdodau lleol ddefnyddio beiliaid i adennill dyledion lle y gallai hynny fod yn briodol. Dylid seilio penderfyniadau ar amgylchiadau'r achos dan sylw, er ei bod yn ddefnyddiol cael canllawiau ar grwpiau a allai fod yn fregus." Ombwdsmon

"Ni ddylid diffinio bregusrwydd mewn rheoliadau. Y ffordd orau o bennu bregusrwydd yw drwy ystyried pob achos ar wahân gan asiantau gorfodi cymwysedig, gan ymgynghori ag awdurdodau lleol os bydd angen." Credydwr cyhoeddus

"Rydym yn cytuno na ellid ac na ddylid cael diffiniad terfynol gan fod amgylchiadau'n newid. Er bod rhai nodweddion ac amgylchiadau sy'n debygol o fod yn ffactorau risg neu'n ffordd o ddynodi bregusrwydd, gallai dyledwyr fod yn fregus hefyd am resymau sydd heb gysylltiad ag unrhyw un o'r amgylchiadau hyn, ac nid yw amgylchiadau o'r fath yn arwain at fregusrwydd o reidrwydd." Sector cynghori

"Y ffactor hanfodol o ran adnabod rhywun sy'n fregus yw ei allu i ymwneud â'r asiant a'i allu i ddeall pam y mae'r asiant yn bresennol. Nid yw pennu bregusrwydd ar sail categorïau, sy'n aml yn ofyniad, yn adlewyrchu gwahaniaethau rhwng unigolion a gall gau allan y rheini nad oeddent yn ymddangos yn fregus ar y dechrau ond a allai fod yn fregus wedyn." Sector gorfodi

60. Mae'n amlwg bod sefyllfaoedd lle na all unigolion wynebu eu problemau dyled, yn enwedig os dynt yn profi caledi neilltuol ar y pryd. Mae hyn yn arbennig o wir am y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd asiant gorfodi, wrth wynebu sefyllfa o'r fath, yn rhoi'r gorau i gamau gorfodi pellach ar unwaith er mwyn caniatáu i'r unigolyn ofyn am y cymorth y mae arno'i angen i gywiro'r sefyllfa.
61. Mae dyletswydd gofal gan y credydwr a'r asiant gorfodi tuag at bobl fregus. Byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid, gan gynnwys y sector cynghori, awdurdodau lleol a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, ar ffordd bosibl o bennu sefyllfaoedd lle y mae pobl yn fregus.
62. Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ystyried ar hyn o bryd pa ganllawiau y gall eu rhoi i awdurdodau lleol i'w helpu i ddarparu gwell cymorth i bobl fregus sydd ag ôl-ddyledion treth gyngor. Bydd yn cydweithio ar hyn ag awdurdodau lleol a'r sector cynghori.

63. Byddwn hefyd yn datblygu cynnwys y cymhwysedd hyfforddiant fel y bydd yn rhoi sylw, ym maes gofal cwsmeriaid, i'r camau sydd i'w cymryd mewn sefyllfaoedd sy'n cynnwys pobl fregus ac i'r polisi ac arweiniad ar ddileu ffioedd.

Argymhelliad 4

Ni fydd diffiniad o fregusrwydd yn y rheoliadau.

Camau Gorfodi

64. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn ynghylch manylion y rheoliadau arfaethedig ar gyfer y weithdrefn Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau sydd wedi'i phennu yn Atodlen 12 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Mae'r rheoliadau'n pennu'r broses ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau ac mae hyn yn cynnwys:
- Pa bryd a sut y caiff asiant gorfodi fynd i mewn i eiddo
 - Pa nwyddau y caiff asiant gorfodi eu hatafaelau a'u gwerthu
 - Sut, pa bryd ac ym mhle y mae asiant gorfodi'n cael atafaelu a gwerthu nwyddau
 - Pa wybodaeth y bydd yn ofynnol i'r asiant gorfodi ei rhoi i'r dyledwr a pha bryd.
65. Roedd cytundeb cyffredinol bod y cynigion yn dderbyniol mewn egwyddor o ran gwneud prosesau a gweithdrefnau'n glir, a rhoi mwy o amddiffyniad i bawb sydd mewn dyled (gan gynnwys y rhai mwyaf bregus) rhag arferion drwg. Mae angen set o reolau sy'n syml, yn dryloyw ac yn unffurf ar gyfer pob math o waith gorfodi gan feiliaid. Er hynny, cafwyd ymateb cymysg i rai o'r manylion.
66. Mae hawl gan gredydwr cyfreithlon i orfodi dyledion sydd heb eu talu iddynt. Yn yr un modd, dylai dyledwr gael eu diogelu rhag camau gorthrymus i adennill dyledion. Mae'r cynigion yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng hawliau a rhyddid yn hyn o beth.

Terfyn Amser

67. Roedd y papur ymgynghori'n egluro'r cynigion ar gyfer terfyn amser o 12 mis ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau a oedd yn dechrau ar ddyddiad y rhybudd gorfodi. Roedd hefyd yn egluro y bydd y cynigion yn caniatáu hyblygrwydd yn y trefniant talu, os yw'r dyledwr yn gallu gwneud trefniant i ad-dalu heb fod angen cymryd rheolaeth dros nwyddau, drwy bennu y bydd y cyfnod o 12 mis yn dechrau ar ddyddiad unrhyw dorri ar delerau'r cynllun ad-dalu. (Cwestiwn 11)
68. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr fod y terfyn amser o 12 mis yn briodol, er bod rhai o gynrychiolwyr y sector cynghori'n pryderu y byddai pwysau ar ddyledwr i wneud trefniadau ad-dalu a oedd yn galw am dalu'r

ddyled a'r costau o fewn 12 mis yn hytrach na gwneud taliadau fforddiadwy.

69. Nid yw mater y cynlluniau ad-dalu'n gyfrifoldeb i'r asiant gorfodi'n unig. Mae rhywfaint o gyfrifoldeb gan y credydwr hefyd ac mae ganddo hawl i hysbysu'r asiant gorfodi am y lefel sy'n dderbyniol mewn cynlluniau ad-dalu.

Argymhelliad 5

Y terfyn amser ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau fydd 12 mis a gellir ymestyn y terfyn am 12 mis ychwanegol drwy wneud cais i'r llys.

Cam gweinyddu/cydymffurfio

70. Roedd y papur ymgynghori'n egluro'r cynigion i'w gwneud yn ofynnol i'r asiant gorfodi hysbysu'r dyledwr am y penderfyniad i gymryd camau gorfodi a chaniatáu amser i'r dyledwr dalu'r ddyled cyn i'r asiant gorfodi gyrraedd yr eiddo. (Cwestiwn 12)
71. Roedd y papur ymgynghori'n egluro mai'r cyfnod rhybudd lleiaf a gynigir yw saith diwrnod ac eithrio ar gyfer Adennill Ôl-ddyledion Rhent Masnachol lle y byddai'n 14 o ddiwrnodau. Roedd y sector cynghori'n croesawu'r bwriad i gyflwyno cam gweinyddu/cydymffurfio. Roedd credydwr preifat yn pryderu y byddai cyflwyno rhybudd yn gallu rhoi cyfle i'r dyledwr osgoi camau gorfodi. Cafwyd ymateb cymysg i'r cynigion ar gyfer cyfnodau rhybudd. Credai rhai fod y cyfnod yn rhy hir, eraill ei fod yn rhy fyr, a nododd nifer o ymatebwyr mai dim ond un cyfnod y dylid ei gael ar gyfer pob math o ddyled. Ein bwriad felly yw gosod cyfnod lleiaf o saith diwrnod ar gyfer pob math o ddyled. Cyfnod lleiaf yw hwn ac nid yw'n atal credydwr ac asiantau gorfodi rhag negodi cyfnodau hirach. Bydd y rheoliadau hefyd yn rhoi pŵer i'r llys i leihau'r cyfnod rhybudd os yw'r asiant gorfodi neu'r credydwr o'r farn y bydd y dyledwr yn osgoi camau gorfodi os caiff ormod o rybudd.

Argymhelliad 6

Y cyfnod rhybudd lleiaf ar gyfer pob math o ddyled (gan gynnwys Adennill Ôl-ddyledion Rhent Masnachol) fydd saith diwrnod.

Cam gorfodi

Cael mynediad i eiddo

72. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnig mai dim ond drwy ddrws neu unrhyw ddull arferol o gael mynediad y bydd asiant gorfodi'n gallu cael mynediad neu ailfyndiad i eiddo. (Cwestiwn 13)
73. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn.

Argymhelliad 7

Dim ond drwy ddrws neu unrhyw ddull arferol o gael mynediad i'r eiddo y bydd yr asiant gorfodi'n gallu cael mynediad neu ailfynediad i eiddo.

Diwrnodau ac Oriau

74. Roedd y papur ymgynghori'n egluro'r cynigion ar gyfer y diwrnodau a'r oriau pryd y gall asiant gorfodi gael mynediad i eiddo a chymryd rheolaeth dros nwyddau. Y cynnig yw y caiff yr asiant gorfodi fynd i mewn i'r eiddo ar unrhyw ddiwrnod ac y caiff fynd i mewn i eiddo preswyl rhwng 6.00am a 9.00pm. (Cwestiynau 14–18)
75. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr â'r cynnig hwn er bod y sector cynghori wedi mynegi pryderon ynghylch bregusrwydd. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion yn drwyadl ac yn enwedig y sylwadau gan y sector cynghori am yr angen i weithredu'n unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran parchu diwylliant a gwyliau crefyddol. Mae angen i'r ddeddfwriaeth gwmpasu sefyllfaoedd o bob math a byddem yn disgwyl gweld y cyfyngiadau angenrheidiol yn y Safonau Cenedlaethol a'r Contractau. Byddwn yn ystyried cyfyngiadau o'r fath wrth adolygu cynnwys y Safonau Cenedlaethol (yn unol â pharagraff 11).

Argymhelliad 8

Bydd y swyddog gorfodi'n gallu mynd i mewn i eiddo ar unrhyw ddiwrnod a bydd mynediad i eiddo sy'n eiddo preswyl yn unig yn gyfyngedig i'r oriau rhwng 6.00am a 9.00pm.

Nwyddau eithriedig

76. Roedd y papur ymgynghori'n nodi cynigion i greu diffiniad clir o nwyddau eithriedig. (Cwestiwn 19)
77. Mynegwyd pryder gan ymatebwyr sy'n gredydwy'r a rhai sy'n rhan o'r sector gorfodi am natur gyfarwyddol y rhestr ac yn enwedig bod y disgrifiadau yn y rheoliadau'n cwmpasu nifer o ddyfeisiau electronig nad ydynt, oherwydd newidiadau mewn technoleg, yn diwallu anghenion domestig sylfaenol.
78. Mynegodd y sector cynghori bryder am natur gyffredinol y rhestr ac roedd yn argymhell eithrio nwyddau sy'n cael eu defnyddio ar y pryd gan ddadlau mai honno yw'r sefyllfa bresennol.
79. Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid er mwyn ystyried eu pryderon a llunio rhestr ymarferol ar gyfer y rheoliadau.

Cytundeb nwyddau dan reolaeth

80. Pwrpas y cytundeb nwyddau dan reolaeth yw caniatáu i'r asiant gorfodi gymryd rheolaeth dros y nwyddau ond eu gadael ym meddiant y dyledwr. Mae hyn yn golygu na fydd yr asiant gorfodi'n symud y nwyddau na'u gwerthu, ar yr amod bod y ddyled a chost y camau gorfodi'n cael eu talu erbyn dyddiad penodedig. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn ynghylch pwy, heblaw'r dyledwr, a gaiff lofnodi'r cytundeb nwyddau dan reolaeth, yn benodol pan yw'r dyledwr yn absennol o'r eiddo a bod nwyddau ar gael i'w symud gan yr asiant gorfodi.
81. Roedd y sector cynghori'n pryderu y byddai caniatáu i rywun heblaw'r dyledwr lofnodi'r cytundeb nwyddau dan reolaeth yn gallu arwain at gamddefnydd o'r weithdrefn gan yr asiant gorfodi. Ein bwriad yng nghyswllt eiddo domestig (dyled unigolyn) yw y dylai'r dyledwr allu awdurdodi unigolyn arall i wneud cytundeb nwyddau dan reolaeth. Bydd hyn yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle nad yw'r dyledwr yn bresennol yn yr eiddo a'i fod yn barod i wneud cytundeb ac am osgoi camau i symud nwyddau a chostau pellach. Mater i'r dyledwr fyddai enwebu'r unigolyn hwnnw – nid yr asiant gorfodi.
82. Os mai busnes sydd mewn dyled, dylai fod yn bosibl i'r cytundeb nwyddau dan reolaeth gael ei lofnodi gan berson sydd yn amlwg mewn awdurdod. Drwy wneud hyn, ni fyddai'n rhaid symud nwyddau ac ni fyddai costau pellach. (Cwestiynau 20–21)

Argymhelliad 9

Dylai'r dyledwr allu awdurdodi unigolyn arall i wneud cytundeb nwyddau dan reolaeth ar ei ran.

Os yw'r ddyled yn ddyled busnes, dylai unigolyn sydd yn amlwg mewn awdurdod yn y busnes hwnnw allu gwneud cytundeb nwyddau dan reolaeth.

Sicrhau'r nwyddau o fewn yr eiddo

83. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn ynghylch sicrhau rhan o'r eiddo neu'r rhan honno o'r eiddo sydd wedi'i meddiannu er mwyn cynnal masnach neu fusnes yn unig. Mae'n amlwg o'r ymateb bod angen y darpariaethau hyn mewn amgylchiadau lle y mae'r asiant gorfodi wedi gorfod cymryd rheolaeth dros yr holl nwyddau er mwyn adennill y ddyled a'r costau, a lle y mae'r asiant gorfodi'n pryderu y bydd y dyledwr yn symud y nwyddau er mwyn osgoi camau gorfodi. (Cwestiwn 22)

Argymhelliad 10

Lle y mae'r asiant gorfodi'n gorfod cymryd rheolaeth dros yr holl nwyddau mewn eiddo masnach neu fusnes i adennill y ddyled a'r costau a'i fod yn pryderu y bydd y dyledwr yn symud y nwyddau er mwyn osgoi camau gorfodi – bydd yr asiant gorfodi'n gallu sicrhau'r eiddo cyfan.

Sicrhau nwyddau ar briffordd

84. Roedd y papur ymgynghori'n trafod camau i sicrhau cerbydau, yn enwedig y rheini a gafwyd ar y briffordd a'r angen i gynnwys cyfnod penodol i alluogi'r dyledwr i dalu'r ddyled ac osgoi'r costau o symud y cerbyd. Roedd y papur ymgynghori'n awgrymu bod rhaid cadw'r cerbyd yn ddisymud am 24 awr. (Cwestiwn 23)
85. Nid oedd yr ymatebion i'r cynnig hwn yn gefnogol at ei gilydd. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod 24 awr yn gyfnod rhy fyr gan nad oedd yn rhoi digon o amser i'r dyledwr drefnu cynllun ad-dalu. Fodd bynnag, roedd y diwydiant gorfodi o'r farn bod 24 awr yn gyfnod rhy hir oherwydd gellid difrodi neu fandaleiddio'r ddyfais atal symud yn y cyfnod hwnnw. Oni bai fod yr asiant gorfodi'n aros wrth y cerbyd ni fyddai'n gallu profi mai'r dyledwr a oedd wedi ymyrryd â'r cerbyd a chyflawni trosedd drwy wneud hynny dan Atodlen 12.

“Cytuno. Dylai 24 awr fod yn gyfnod digon hir i'r dyledwr wneud taliad. Gallai'r cerbyd gael ei fandaleiddio pe byddai'n cael ei adael wedi'i sicrhau am gyfnod hirach.” Credydwr cyhoeddus

“Rydym o blaid y terfyn amser gan ei fod yn rhoi amser i ddyledwyr ddod o hyd i arian heb fynd i gostau sylweddol am symud y cerbyd. Er hynny, mae'n amlwg bod perygl y gallai cerbydau gael eu symud yn y cyfamser gan ddyledwyr neu gael eu fandaleiddio gan bobl eraill. Felly mae'r cyngor yn argymhell monitro terfyn amser o'r fath i asesu unrhyw anawsterau a allai godi” Credydwr cyhoeddus

“Byddai gadael y cerbyd wedi'i glampio hyd yn oed am ychydig oriau'n sicr o gymell ymddygiad troseddol (torri i mewn i'r cerbyd, difrodi'r cerbyd neu dynnu'r clamp yn anghyfreithlon). Dwy awr yw'r cyfnod hiraf y dylid ei ganiatáu, os oes rhaid cael cyfnod penodol. Mae'n well gennym beidio â phennu cyfnod o gwbl.” Sector gorfodi

“Byddai gosod cyfnod lleiaf o 24 awr yn creu'r perygl o fandaleiddio'r cerbyd gan drydydd parti. Byddai llai o berygl o hynny pe byddai'r cyfnod yn fyrrach” Credydwr cyhoeddus

“Os caiff cerbyd ei atafaelu (a'i atal rhag symud) yn ystod ymweliad gan asiant gorfodi a bod y dyledwr yn gwybod am hynny, yna dylai dwy awr fod yn gyfnod digon hir i'r dyledwr ddod o hyd i'r arian dyledus a'i drosglwyddo a dylid caniatáu i'r asiant gorfodi godi tâl am aros ar ôl yr awr gyntaf.” Sector gorfodi

86. Rydym yn cytuno bod angen cyfnod penodol i roi cyfle i'r dyledwr dalu'r ddyled neu ddod i gytundeb arall â'r asiant gorfodi. Nid ydym yn derbyn bod 24 awr yn gyfnod rhy fyr gan y bydd y dyledwr wedi cael nifer o gyfleoedd i setlo'r ddyled heb fod angen symud y nwyddau. Mae ymyrryd yn fwriadol â nwyddau dan reolaeth yn drosedd dan Ran 3 o

Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Fodd bynnag, bydd angen i ni drafod y terfynau amser y gellid eu gosod â'r diwydiant gorfodi, y sector cynghori a chyrrff credydwr i sicrhau na fyddai cyfyngiadau o'r fath yn arwain at symud y nwyddau ar unwaith gan yr asiant gorfodi i'w gwerthu gan greu mwy o gostau i'r dyledwr.

Y cam gwerthu

87. Roedd y papur ymgynghori'n egluro manylion y broses ar gyfer gwerthu nwyddau gan yr asiant gorfodi i setlo'r ddyled ac roedd yn gofyn am sylwadau penodol am y cyfnod lleiaf sydd wedi'i bennu cyn y gellir gwerthu nwyddau ac am rannu elw'r gwerthiant. Un o'r cynigion oedd pennu cyfnod lleiaf o saith diwrnod cyn y gellir bwrw ymlaen â gwerthiant, ac roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid hyn. Roedd y papur ymgynghori hefyd yn gofyn am wybodaeth gan ymatebwyr ynghylch dulliau gwerthu eraill i'w cynnwys yn y rheoliadau. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at arwerthiannau ar-lein ac electronig sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad o "public auction house" yn rheoliad drafft 39(3). Ni nodwyd unrhyw ffyrdd newydd eraill o werthu nwyddau. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn argymhell na ddylid cyfyngu gwerthiant ar y safle i ddyledion yr Uchel Lys, y llys sirol a dyledion treth ac y dylai fod ar gael ar gyfer pob math o ddyled busnes.
88. Roedd y papur ymgynghori'n cynnig, mewn amgylchiadau lle nad yw'r elw o werthu'n ddigon i dalu'r ddyled a'r holl gostau (gan gynnwys costau'r arwerthwr), fod yr arian i'w ddefnyddio i dalu costau'r arwerthwr yn gyntaf a bod gweddill yr elw i'w ddsbarthu yn ôl cyfrannau rhwng y credydwr a'r asiant gorfodi. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod y cynnig hwn yn briodol, er bod rhai ymatebwyr wedi awgrymu rhannu'r elw'n gyfartal neu dalu'r costau gorfodi'n gyntaf. Mae'r arwerthwr yn annibynnol ar y broses ac nid yw costau'r arwerthwr yn rhan o gostau'r asiant gorfodi ac felly nid ydynt yn dod o dan Atodlen 12 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Felly, ym marn y Llywodraeth, rhaid sicrhau bod costau'r arwerthwr wedi'u talu'n gyntaf o elw'r gwerthiant. Dylid rhannu gweddill yr elw yn ôl cyfrannau er mwyn cymhell asiantau gorfodi i gael y pris gorau am y nwyddau a werthir.

Argymhelliad 11

Y cyfnod lleiaf cyn y gellir gwerthu nwyddau fydd saith diwrnod ar ôl symud y nwyddau heblaw lle y byddai hynny'n golygu ei bod yn amhosibl gwerthu'r nwyddau neu fod eu gwerth yn gostwng yn sylweddol.

Ni fydd unrhyw ddulliau gwerthu eraill yn cael eu hychwanegu yn y rheoliadau.

Bydd y rheoliadau'n cael eu diwygio i ganiatáu gwerthu ar y safle i setlo dyledion busnes.

Bydd darpariaeth yn y rheoliadau sy'n pennu bod elw annigonol i'w ddsbarthu yn ôl cyfrannau rhwng y credydwr a'r asiant gorfodi.

Adennill Ôl-ddyledion Rhent Masnachol

89. Roedd y papur ymgynghori'n disgrifio'r cynigion ar gyfer Adennill Ôl-ddyledion Rhent Masnachol. Bydd Adran 71 o Ddeddf Tribiwlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (pan gaiff ei chychwyn) yn diddymu'r hawl cyfraith gwlad i atafaelu am ôl-ddyledion rhent ac yn darparu amddiffyniad i denantiaid preswyl. Fodd bynnag, bydd Adran 72 yn caniatáu i landlord o dan les adeilad masnachol ddefnyddio'r weithdrefn sydd yn Atodlen 12 i Ddeddf 2007 i adennill oddi wrth y tenant y rhent sy'n daladwy o dan y les heb fod angen mynd â'r mater i'r llys.
90. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am sylwadau penodol am y wybodaeth y mae'n ofynnol i'r landlord ei rhoi er mwyn awdurdodi asiant gorfodi, am y cyfnod rhent lleiaf ac am gynnwys yr hysbysiad i is-denant.
91. Cafwyd atebion i'r cwestiynau hyn gan hanner yr ymatebwyr. Credai ymatebwyr fod y wybodaeth yr oedd yn ofynnol i'r landlord ei rhoi i'r asiant gorfodi'n annigonol ac y dylai gynnwys manylion am y canlynol hefyd:
- swm y rhent sydd i'w adennill;
 - y cyfnod y mae'r rhent yn ddyledus amdano;
 - indemniad gan y landlord i'r asiant gorfodi rhag unrhyw achos a allai godi o ganlyniad i roi cyfarwyddyd anghywir.
92. Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod y cyfnod rhent lleiaf o saith diwrnod mewn ôl-ddyled yn briodol. Roedd rhai'n dadlau ei fod yn rhy hir ac eraill ei fod yn rhy fyr. Dim ond ar gyfer rhent masnachol y mae'r rhwymedi hwn ar gael ac felly nid oes angen ymestyn y cyfnod o saith diwrnod. Er hynny, mae'n ymddangos bod dadleuon cryf o blaid cadw'r cyfnod rhent presennol o un diwrnod. Yn benodol, mewn sefyllfa lle y mae dyledwr ar fin mynd yn fethdalwr neu lle y mae cyfnod o'r fath yn peri oedi wrth wneud taliadau rhent.
93. Byddwn yn cydweithio â chredydwyr a'r diwydiant gorfodi i ystyried y canlyniadau o osod cyfnod penodol o'r fath.
94. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod cynnwys yr hysbysiad i'r is-denant yn briodol.

Argymhelliad 12

Bydd y gofynion am wybodaeth oddi wrth y landlord yn cael eu diwygio i gynnwys:

- swm y rhent sydd i'w adennill;
- y cyfnod y mae'r rhent yn ddyledus amdano;
- indemniad oddi wrth y landlord i'r asiant gorfodi rhag unrhyw achos a allai godi o ganlyniad i roi cyfarwyddyd anghywir.

Sicrhau bod yr holl bartïon yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau

- 95. Mae'n bwysig bod yr holl bartïon yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae'r Safonau Cenedlaethol a'r wybodaeth ar wefan GOV.UK yn fan cychwyn da. Yn ogystal â hyn, mae'r Rheoliadau ar Gymryd Rheolaeth dros Nwyddau yn cyflwyno hysbysiadau newydd, ar bob cam, i sicrhau bod y dyledwr yn llwyr ymwybodol o ganlyniadau ei weithredoedd neu ddiffyg gweithredu. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn am saith hysbysiad newydd. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr y byddai'n fuddiol cael set o hysbysiadau a oedd wedi'u rhagnodi.
- 96. Mae'n bwysig bod pob gwybodaeth a roddir yn glir ac yn ddiamwys ac mewn iaith annhechnegol os yw'n bosibl. Cafwyd awgrymiadau hefyd am wybodaeth ychwanegol i'w chynnwys. (Cwestiwn 32)
- 97. Byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid ar gynnwys yr hysbysiadau a'r rhybuddion ac i ystyried hefyd pa daflenni neu ganllawiau eraill y dylid eu datblygu i helpu'r holl bartïon.

Costau Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Gorfodi

- 98. Roedd y papur ymgynghori'n disgrifio strwythur newydd arfaethedig ar gyfer costau sy'n seiliedig ar set o weithgareddau craidd sydd wedi'u cynnwys mewn camau gyda symiau penodedig ar gyfer pob cam. Mae crynodeb o'r gweithredoedd sydd ym mhob cam yn y tabl isod. Byddai'r ffi a godir ar y dyledwr yn dibynnu ar ba gam y mae'r ddyled wedi'i thalu'n ôl.

Gweithred	Llysoedd heblaw'r Uchel Lys	Yr Uchel Lys
<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi'r hysbysiad gorfodi • Cyfathrebu â'r dyledwr am y tro cyntaf • Prosesu taliad neu reoli cynlluniau rhandaliadau 	Cam gweinyddu / cydymffurfio	Cam gweinyddu / cydymffurfio
<ul style="list-style-type: none"> • Ymweliad cyntaf • Prosesu taliad neu reoli cynlluniau rhandaliadau • Rheoli'r broses ar gyfer cytundeb nwyddau dan reolaeth 	Cam gorfodi	Cam gorfodi 1
<ul style="list-style-type: none"> • Trefnu i symud nwyddau • Yr holl ymweliadau dilynol 	Cam gorfodi	Cam gorfodi 2

Gweithred	Llysoedd heblaw'r Uchel Lys	Yr Uchel Lys
<ul style="list-style-type: none"> • Symud a chludo nwyddau i'r man gwerthu • Rheoli gweithgareddau arwerthu • Rheoli arian a thalu'r credydwr yn y dyfarniad 	Cam gwerthu	Cam gwerthu

99. Pwrpas y strwythur yw sicrhau eglurder a thryloywder a chreu cymhelliant i weithredu mewn ffordd gymesur wrth gymryd camau gorfodi. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn am y gweithgareddau craidd ac am y ffordd y mae'r gweithgareddau craidd wedi'u rhannu'n gamau. (Cwestiynau 33, 34, a 35)
100. Mynegwyd pryder gan y sector cynghori fod y strwythur wedi'i seilio ar gostau cyfartalog y cwmnïau ac, felly, nad yw'n ystyried costau cwmnïau effeithlon a fyddai'n is na'r cyfartaledd. Roeddent hefyd yn pryderu ei fod yn cynnwys costau Cyfarwyddwyr. Mae costau Cyfarwyddwyr yn rhan o gostau rhedeg y cwmni felly nid oedd rheswm dros eu diystyru. Nid oedd gwybodaeth ar gael i ddangos pa gwmnïau a oedd yn effeithlon a pha gwmnïau a oedd â chostau is am resymau heblaw eu bod yn trafod nifer o wahanol fathau o ddyled ac yn defnyddio system cofnodi wahanol. Felly, y data am gostau cyfartalog cwmnïau oedd y data gorau a oedd ar gael.
101. Nododd y sector gorfodi nad oedd y gweithgareddau craidd yn cynnwys ceisiadau i'r llys. Fel yr ydym wedi datgan yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ein bwriad yw rhoi terfyn ar geisiadau diangen i'r llys. Nid ydym am gymell asiantau gorfodi i wneud ceisiadau i'r llysoedd ac felly ni fydd y rhain yn cael eu cyfrif yn weithgarwch craidd. Os yw'r asiant gorfodi'n credu bod angen hawlio'r gost am hyn, gall wneud cais am gost eithriadol i dalu amdano.
102. Awgrymodd y sector cynghori y dylai'r ymweliad cyntaf gael ei gynnwys yn y cam cydymffurfio er mwyn hybu negodi priodol a mynnu bod trefniadau talu'n rhesymol ac yn fforddiadwy yn ôl amgylchiadau'r unigolyn dan sylw. Roeddent hefyd yn argymhell, mewn sefyllfa lle'r oedd y cyfnod ar gyfer gwneud taliadau'n anymarferol, na ddylai'r asiant gorfodi allu symud ymlaen at y cam gorfodi os yw'r unigolyn wedi methu cydymffurfio â'r trefniant anymarferol.
103. Dylid nodi nad yw'r asiant gorfodi'n berchen ar y ddyled; mae'n gorfodi'r ddyled ar ran y credydwr. Rôl yr asiant gorfodi yw casglu'r ddyled a'r costau neu atafaelu a gwerthu nwyddau i dalu'r ddyled a'r costau. Fel yr ydym wedi nodi eisoes yn yr adroddiad hwn, mae rhan i'w chwarae gan y credydwr wrth gytuno ar unrhyw gynllun ad-dalu.

104. Drwy gyflwyno'r cam cydymffurfio, mae cyfle ychwanegol i'r dyledwr setlo'r ddyled ac mae'r cam hwn wedi'i gynnig er mwyn osgoi'r angen i'r asiant gorfodi ymweld â'r eiddo. Pe byddai ymweliad â'r eiddo wedi'i gynnwys yn y cam cydymffurfio, byddai'r asiant gorfodi'n gallu symud ymlaen ar unwaith i'r cam gorfodi a byddai'r ffi am y cam gweinyddu/cydymffurfio'n uwch byth.
105. Yn y rhan fwyaf o achosion lle y mae bregusrwydd yn ystyriaeth, ni fydd hynny'n dod i'r golwg nes bydd yr asiant gorfodi'n ymweld â'r dyledwr am y tro cyntaf. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn am y posibilrwydd o ddileu ffioedd y cam cydymffurfio. (Cwestiwn 36)
106. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr, mewn sefyllfa lle y gellir dangos nad yw'r dyledwr yn gallu cymryd rhan ar gam cynnar yn y broses, y dylid rhoi cyfle i'r dyledwr gael y cymorth/cyngor angenrheidiol heb godi ffi'r cam gorfodi arno.
107. Gofynnwyd am farn ynghylch y symiau penodedig ar gyfer pob un o'r camau (Cwestiwn 37). Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn. Mae'r sector cynghori'n pryderu bod y costau penodedig ar gyfer pob cam wedi'u seilio ar y math lleiaf effeithiol o waith gorfodi – h.y. gorfodi yng nghyswllt traffig ffyrdd. Maent yn dadlau bod y cynigion yn gwbl amhriodol ar gyfer dyledion bach iawn, ac y dylid defnyddio graddfa ffioedd wahanol ar gyfer dyledion fel y rheini sydd o dan £100. Fodd bynnag, nid yw'r ddadl hon yn ystyried y ffaith bod cost rhai o'r gweithgareddau yn y cam cydymffurfio'n debyg ar gyfer dyledion o bob math a maint fel na fyddai fawr o faintais o gael graddfeydd ffioedd gwahanaol ar gyfer gwahanaol fathau o ddyled.
108. Mae'r sector gorfodi'n pryderu bod y cam 'gwerthu' yn cynnwys symud nwyddau a'u cludo i'r man gwerthu yn ogystal â nifer o gamau gweithredu gofynnol fel cyfrifo neu gael pris am y nwyddau a'i gyhoeddi. Mae hefyd yn ymddangos bod y ffi i gynnwys y costau sylweddol o symud y nwyddau eu hunain, eu hyswirio a chostau'r gwerthiant ei hun. Yn eu barn nhw, ni fydd y ffi o £105 yn ddigon i dalu am y gweithgareddau craidd dan bob math o amgylchiadau. Rhaid nodi nad yw ffioedd yr arwerthwr wedi'u cynnwys yn y strwythur ffioedd gan nad ydynt yn gostau i'r asiant gorfodi. Mae costau eithriadol am symud nwyddau neilltuol o ddrud yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
109. Rydym wedi ystyried yr holl safbwyntiau a fynegwyd ac yn credu o hyd mai cyflwyno'r costau ar y lefel arfaethedig yw'r ffordd gywir ymlaen. Dylid cael system gostau glir a thryloyw sy'n sicrhau bod dyledwyr yn llwyr ymwybodol o'r gost am unrhyw ddiffyg gweithredu. Er bod gwahaniaeth barn am y strwythur a'r costau, ni chynigiwyd unrhyw dystiolaeth benodol o blaid strwythur ffioedd gwahanaol. Byddwn yn adolygu strwythur a lefel y ffioedd drwy'r broses monitro sydd wedi'i disgrifio'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 13

Bydd y gweithgareddau craidd, y grwpiau o weithgareddau a'r symiau ar gyfer y camau'n aros fel y maent wedi'u cynnig yn y papur ymgynghori.

Mewn amgylchiadau penodol, rhoddir mwy o amser i'r dyledwr gael cymorth/cyngor heb godi ffi'r cam gorfodi.

110. Gofynnwyd am farn ynghylch y cynnig i godi cost ganrannol ychwanegol ar weddill unrhyw ddyled o fwy na £1,000 (Cwestiwn 38). Roedd y sector cyngori'n amau a oedd angen am hyn ac awgrymodd nad oedd yn ymddangos yn rhesymol ar gyfer nwyddau domestig ond y gallai fod yn rhesymol mewn achosion sy'n ymwneud â chyfarpar busnes arbenigol o werth uchel.
111. Roedd Awdurdodau Lleol yn pryderu ynghylch dyledion am drethi lleol, yn enwedig y Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig.

"Bydd gan lawer o gleientiaid ddyledion o fwy na £1,000 ond nid oes unrhyw dystiolaeth bod dyled uwch yn arwydd bod lefel yr asedau'n uwch na'i bod yn ddrutach delio â'r asedau hynny mewn gwaith gorfodi. Mae'n ymddangos yn rhesymol bod y gost ganrannol ychwanegol hon yn gymwys i gyfarpar busnes arbenigol o werth uchel yng nghyswllt dyledion busnes yn unig." Sector cyngori

"Mae nifer o fusnesau bach a chanolig eu maint yn y Ddinas sy'n meddiannu eiddo sydd â gwerth trethadwy o fwy na £50,000 neu £100,000. Gellid gofyn i'r rhain dalu mwy na £2,000 o ffioedd beili am ddyled o un flwyddyn. Mae hyn hefyd yn gwbl anghymesur. Mewn gwirionedd, bydd yn mynd â gwaith oddi ar feiliaid gan y bydd awdurdodau lleol yn awyddus i'w dyled nhw gael ei thalu, yn hytrach na ffioedd beiliaid, a gallent fod yn llai tueddol i drosglwyddo gorchmynion atebolrwydd i feiliaid." Credydwr cyhoeddus

112. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau rydym wedi adolygu'r ganran a'r trothwyon gyda'r sector gorfodi ac wedi ystyried newidiadau posibl yn y trothwy. Yn benodol, roedd yn bwysig sicrhau, os oedd modd, na fyddai'r trothwy'n effeithio ar y rhan fwyaf o ddyledion treth gyngor. Felly rydym yn argymhell gosod y trothwy ar £1,500 yn hytrach na'r swm o £1,000 a nodwyd yn y papur ymgynghori.

Argymhelliad 14

Dylai'r trothwy ar gyfer ffioedd canrannol ar gyfer dyledion heblaw rhai'r Uchel Lys fod yn £1,500.

113. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod angen delio â'r sefyllfa lle'r oedd nifer o warantau'n cael eu cyhoeddi yr un pryd. Os yw nifer o warantau'n

cael eu trafod ar yr un pryd, mae'n amlwg ei bod yn briodol defnyddio'r cam cydymffurfio ar gyfer pob gwarant. Fodd bynnag, lle y ceir un ymweliad i gasglu dyledion dan yr holl warantau, dim ond un ffi a fyddai'n cael ei chodi am y cam gorfodi.

Argymhelliad 15

Mae ffi'r cam cydymffurfio'n gymwys i bob gwarant.

Dim ond un ffi a godir am y cam gorfodi wrth orfodi nifer o warantau yr un pryd.

114. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr fod angen proses ar gyfer costau eithriadol. Dylai gynnwys y costau ychwanegol a godwyd, ar ben y costau arferol, gan gynnwys rhai ar gyfer delio â nwyddau sy'n arbenigol neu o werth uchel iawn. Dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau a dylid penderfynu arno drwy broses y llys.
115. Mynegwyd pryder gan y sector cynghori a rhai credydwr y gellid camddefnyddio proses costau eithriadol. Mae'n amlwg y dylai credydwr fod yn llwyr ymwybodol o'r camau a gymerir ar eu rhan gan yr asiant gorfodi ac y dylent fod yn llwyr ymwybodol hefyd o'r costau sy'n cael eu hanfon ymlaen. Felly byddwn yn datblygu proses costau eithriadol sy'n debyg i'r broses sydd ar gael eisoes ar gyfer Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys, gan gynnwys cam ychwanegol i'w gwneud yn ofynnol bod y credydwyr yn dangos ei fod yn cymeradwyo'r cais.
116. Os yw'r asiantaeth gorfodi'n gallu dangos bod y costau ychwanegol a godwyd ganddi'n angenrheidiol, dylai allu gwneud cais i'r llys am gostau ychwanegol dan y broses costau eithriadol.
117. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn am y gwahaniaethau yn y strwythur costau rhwng dyledion yr Uchel Lys a dyledion llysoedd eraill. Cafwyd ymateb cymysg i hyn. (Cwestiwn 40)
118. Nododd nifer o ymatebwyr fod gwaith gorfodi dan yr Uchel Lys yn gallu bod yn ddrutach, gan fod cyfrifoldeb personol gan y swyddog gorfodi tuag at y credydwyr ac am ei bod yn ofynnol bod y credydwyr yn talu costau gweinyddu am waith gorfodi aflwyddiannus. Er hynny, roedd nifer o ymatebwyr yn amau maint y gwahaniaeth rhwng ffioedd ac roedd eraill yn amau'r dystiolaeth a oedd yn sail i'r haerriad hwn.
119. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion ac rydym wedi ein bodloni, o ystyried natur gymhleth gwaith gorfodi dan yr Uchel Lys ynghyd â gwerth uwch y dyledion sydd i'w gorfodi a lefel y cyfrifoldeb personol sydd gan y swyddog awdurdodedig tuag at y credydwyr a'i ddyletswydd i'r llys, fod y sylfaen gostau ar gyfer gwaith gorfodi'r Uchel Lys yn sylweddol uwch a bod hyn yn cyfiawnhau strwythur ffioedd gwahanol.

Argymhelliad 16

Bydd strwythur ffioedd ar wahân ar gyfer Gorfodi dan yr Uchel Lys a Gorfodi dan Lysoedd heblaw'r Uchel Lys.

120. Mae'r strwythur arfaethedig yn fwy cyson â chostau gweithgarwch yr asiant gorfodi a bydd yn newid y cymhellion er mwyn hybu ymddygiad mwy priodol mewn gwaith gorfodi. Bydd yn gliriach ac yn decach hefyd ar gyfer dyledwyr ac asiantau gorfodi. Mae'r newidiadau arfaethedig yn y strwythurau wedi'u dangos isod.

Llysoedd heblaw'r Uchel Lys

Ffioedd Arfaethedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer Gwaith Gorfodi dan Lysoedd heblaw'r Uchel Lys			
Cam y Ffi	Ffi Benodedig	Ffioedd Canrannol	
		£0–£1,500	>£1,500
Gweinyddu	£75.00	0%	0%
Gorfodi	£230.00	0%	7.5%
Gwerthu	£105.00	0%	7.5%

Nodweddion y Strwythur Ffioedd	
Gweithgarwch Sbarduno'r Cam	
Gweinyddu	Cwmni'r Asiant Gorfodi'n derbyn cyfarwyddyd.
Gorfodi	Ymweliad cyntaf yr Asiant Gorfodi ag eiddo / "stepen drws" y dyledwr.
Gwerthu	Mynd â nwyddau i'r man gwerthu
Ffi wedi'i gwarantu gan y Credydwr	Dim

Yr Uchel Lys

Ffioedd Arfaethedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer Gwaith Gorfodi dan yr Uchel Lys			
Cam y Ffi	Ffi Benodedig	Ffioedd Canrannol	
		£0–£1,000	>£1,000
Gweinyddu	£75.00	0%	0%
Gorfodi 1	£185.00	0%	7.5%
Gorfodi 2	£480.00	0%	0%

Ffioedd Arfaethedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer Gwaith Gorfodi dan yr Uchel Lys			
Cam y Ffi	Ffi Benodedig	Ffioedd Canrannol	
		£0–£1,000	>£1,000
Gwerthu	£510.00	0%	7.5%

Nodweddion y Strwythur Ffioedd	
Gweithgarwch Sbarduno'r Cam	
Gweinyddu	Cwmni'r Asiant Gorfodi'n derbyn gwrit.
Gorfodi 1	Ymweliad cyntaf Swyddog Gorfodi'r Uchel Lys / Asiant Gorfodi ag eiddo / "stepen drws" y dyledwr.
Gorfodi 2	Gofyniad i Swyddog Gorfodi'r Uchel Lys / Asiant Gorfodi ymweld ag eiddo'r dyledwr oherwydd methiant y dyledwr i gydymffurfio â hysbysiad atafaelu neu drefniadau i ad-dalu a oedd wedi'u gwneud cyn hynny.
Gwerthu	Mynd â nwyddau i'r man gwerthu
Ffi wedi'i gwarantu gan y Credydwr	£75.00. I'w thalu ar ôl cwblhau Gwrit gyda hysbysiad ffurfiol am ganlyniad ofer.

121. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn ynghylch a oedd y strwythur costau'n debygol o gael effaith anffafriol ar y gallu i adennill dyledion mewn achosion sy'n ymwneud ag Ardrethi Annomestig o ystyried y gwerth uchel iawn mewn achosion o'r fath ac amseriad y camau gorfodi. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn na fyddai effaith anffafriol. Mynegwyd pryder gan rai awdurdodau lleol y byddai'r ffi o 7.5% yn gallu cael effaith anffafriol ar fusnesau bach ac y byddai'r ffi isel am werthu'n gallu cymell yr asiant gorfodi i beidio â chymryd y gwaith. (Cwestiwn 41)
122. Drwy gyflwyno'r cam cydymffurfio, bydd busnesau'n gallu cytuno ar gynllun ad-dalu â'r asiant gorfodi ac felly ni fyddant yn cael eu dal gan y ffi o 7.5%.
123. Roedd y papur ymgynghori'n cynnig, mewn sefyllfa lle'r oedd y ddyled wedi'i thalu'n rhannol, fod yr arian i'w ddosbarthu yn ôl cyfrannau rhwng y ddyled i'r credydwr a chostau'r asiant gorfodi. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â hyn. O'r ymatebwyr hynny nad oeddent yn cytuno, roedd y rhan fwyaf yn awgrymu rhannu'r arian yn gyfartal. Awgrymodd y sector gorfodi y dylai ffi'r cam cydymffurfio gael ei thynnu'n gyntaf ac y dylai'r ffioedd dilynol gael eu talu yn ôl cyfrannau. (Cwestiwn 42)

124. Er mwyn bod yn gyson â'r drefn ar gyfer dosbarthu'r elw ar ôl gwerthu nwyddau, rydym yn cynnig bod yr arian i'w ddsbarthu yn ôl cyfrannau.

Argymhelliad 17

Bydd taliadau rhannol yn cael eu rhannu yn ôl cyfrannau.

125. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn ynghylch diweddaru'r strwythur costau er mwyn ystyried chwyddiant ac am amserlen addas ar gyfer adolygu'r strwythur yn drwyadl. (Cwestiynau 43–45)
126. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr y dylid diweddaru'r strwythur costau er mwyn ystyried chwyddiant cyn ei roi ar waith ac y dylid ei ddiweddaru bob blwyddyn drwy ei fynegrifo wrth fesur o chwyddiant. Roedd lefelau'r ffioedd wedi'u pennu gyda'r bwriad o'u gweithredu yn Ebrill 2012 ac felly bydd angen eu cynyddu'n briodol i gynnwys y chwyddiant a gafwyd rhwng 2012 a'r dyddiad gweithredu. Bydd y mesur o chwyddiant yn cael ei ystyried ar ôl cytuno ar ddyddiad gweithredu.
127. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod amserlen o dair blynedd yn addas ar gyfer adolygu'r strwythur costau'n drwyadl, a'i ailraddnodi o bosibl. Fodd bynnag, bydd angen cynnal Adolygiad Ôl-weithredu o'r holl ddiwygiadau ac ni fyddai'n dderbyniol gadael adolygiad o'r fath am dair blynedd. Bydd angen gwneud gwiriad cymesur i sicrhau bod y diwygiadau wedi cael yr effaith a fwriadwyd, yn enwedig yng nghyswllt dyledwyr bregus. Yn benodol, byddwn am sicrhau bod dyledwyr wedi cael amddiffyniad rhesymol, ond nid mewn ffordd sy'n cael effaith anghymesur ar hawliau'r credydwr. Bydd angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r effeithiau ar asiantau gorfodi, ar effeithiolrwydd gwaith gorfodi ac ar y system gyfiawnder, a hynny'n cynnwys:
- A oes tystiolaeth bod y cyhoedd wedi cael mwy o amddiffyniad rhag gweithredu diangen ac ymosodol;
 - A yw'r system newydd yn llai cymhleth a llai astrus i'r cyhoedd;
 - A yw'r diwygiadau'n caniatáu i'r diwydiant gorfodi weithredu'n effeithiol;
 - Effaith y strwythur ffioedd newydd ar yr holl grwpiau, gan gynnwys y posibilrwydd bod effeithiau anfwriadol.
128. Felly rydym yn bwriadu cynnal adolygiad o'r broses fesul cam ar ôl un flwyddyn, ar ôl tair blynedd ac, os bydd angen, ar ôl pum mlynedd. Byddai cwmpas yr adolygiad ar ôl tair a phum mlynedd yn dibynnu ar y canlyniadau o'r camau blaenorol. Y dull o adolygu fydd gofyn am farn ein holl randdeiliaid am effaith y Rheoliadau. Bydd angen i ni gael gwybod ganddynt beth yw effaith y diwygiadau o safbwynt y gweithredwyr. Bydd angen hefyd i ni ystyried yr effaith yng nghyswllt credydwyr, dyledwyr, asiantau gorfodi a'r system gyfiawnder, yn ogystal â chael sylwadau gan gyrrff sy'n rhoi cyngor ar ddyled.

Trefn Reoleiddio

129. Roedd y papur ymgynghori'n cynnig proses ardystio ar gyfer pob asiant gorfodi. Gwnaethom ofyn am farn am fanylion y broses a gofyn hefyd i ymatebwyr gynnig unrhyw opsiynau a oedd yn wahanol neu'n llai rheoleiddiol a fyddai'n fwy addas i asiantau gorfodi yn eu barn nhw.
130. Awgrymodd y rhan fwyaf o ymatebwyr nad oedd dewisiadau eraill nac opsiynau llai rheoleiddiol ar gael. (Cwestiwn 46) Mynegwyd pryderon hefyd nad yw'r cynllun ardystio'n mynd yn ddigon pell gan ei fod ar gyfer asiantau gorfodi unigol yn unig ac nid yw'n cynnwys y cwmnïau sy'n eu cyflogi na Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys. Rhai o'r awgrymiadau a gafwyd am drefnau rheoleiddio i gynnwys y diwydiant cyfan oedd:
- creu rheoleiddiwr statudol;
 - hunanreoleiddio;
 - creu Ombwdsmon neu ddefnyddio Ombwdsmon presennol.
- Yng ngolwg rhai ymatebwyr, ni fyddai hunanreoleiddio'n dderbyniol oni bai ei fod yn cynnwys monitro effeithiol a rheolaidd, sancsiynau a phroses gwynion annibynnol.
131. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y newidiadau yn y gyfraith, cyflwyno strwythur costau tryloyw a gwella'r broses ardystio'n ffordd bwrpasol a chymesur o weithredu a bod hyn yn gam mawr ymlaen o ran diwygio'r broses gorfodi. Nid ydym yn credu bod angen rheoleiddio annibynnol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi nodi'n barod, bydd Adolygiad Ôl-weithredu'n cael ei gynnal fesul cam ar ôl un, tair a phum mlynedd. Bydd hyn yn ein galluogi i adolygu'r broses ardystio gan gynnwys y dull o drafod cwynion er mwyn sicrhau ei bod yn ymarferol ac yn ddigonol.

Argymhelliad 18

Gweithredu Adran 64 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 a llunio rheoliadau ar gyfer rheoleiddio asiantau gorfodi.

132. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn ynghylch a ddylai'r cais am ardystio gael ei wneud yn llys lleol yr asiant gorfodi ac a ddylai gael ei drafod gan farnwyr rhanbarth arbenigol. (Cwestiynau 47 a 48)
133. Cafwyd ymateb cymysg o ran lleoliad y llys a ddylai drafod ceisiadau. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylent gael eu trafod mewn un lleoliad canolog er mwyn gallu datblygu arbenigedd ac arferion gweithio arbenigol i gasglu tystiolaeth a monitro cwynion. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr y dylid cael barnwyr arbenigol i ddelio â cheisiadau a chwynion.
134. Byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid yn y sector gorfodi a'r sector cynghori ar ddatblygu cynnwys y rheoliadau a byddwn yn

cydweithio hefyd â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r farnwriaeth ar weithdrefn y llys.

135. Cyflwynodd Cymdeithas Parcio Prydain ddau gynnig ar gyfer dull rheoleiddio gwahanol a oedd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori. Dim ond 50% o'r holl ymatebwyr a wnaeth sylw am y cynigion ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn eu cefnogi. Y prif destun pryder oedd na fyddai'r corff yn ddigon annibynnol i ddelio â chwynion gan fod awgrym y byddai aelodau o'r diwydiant yn rhan o'r cyngor. Nid ydym yn credu bod angen trafod mwy o reoleiddio ar hyn o bryd.

Gofynion Cymhwysedd

136. Roedd y papur ymgynghori'n cynnwys disgrifiad byr o feini prawf ar gyfer y lefel sylfaenol o wybodaeth a chymhwysedd y credwn fod angen i'r asiant gorfodi ei chael er mwyn sicrhau tystysgrif yn y llys sirol. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn ynghylch y meini prawf, a ddylai'r hyfforddiant fod yn orfodol ac a ddylai fod gofyniad am hyfforddiant neu ddatblygiad pellach ar ôl rhoi'r dystysgrif. (Cwestiynau 50–52)
137. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod y meini prawf cymhwysedd yn briodol. Roeddent hefyd yn cytuno y dylai'r hyfforddiant fod yn orfodol ac y dylid cael datblygiad parhaus ar ôl rhoi'r dystysgrif. Dim ond chwech o'r ymatebwyr a oedd yn erbyn hyfforddiant gorfodol, ac awgrymodd dau o'r rhain na ddylid cael asiantau gorfodi o gwbl. Mynegwyd safbwyntiau eraill sydd wedi'u dangos isod.

“Rydym yn credu mai hyfforddiant wrth weithio yw'r dewis gorau gan nad oes hyfforddiant gwell na phrofiad go iawn. Ar ôl hynny dylid cael arholiad ysgrifenedig a chyfle i'r asiant gorfodi ddangos ei wybodaeth drwy ei holi gan Farnwr mewn Llys.” Sector gorfodi

“Y newidiadau arfaethedig yn y broses ardystio yw'r mesur a fydd yn sicrhau bod yr asiant gorfodi'n berson addas a phriodol. Ni fydd hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth yn ddigon i sicrhau hynny ar ei ben ei hun, er y bydd hyfforddiant ffurfiol yn llenwi rhai o'r bylchau mewn gwybodaeth a geir ar hyn o bryd. Bydd archwiliad personol trwyadl, a fydd yn cynnwys gwiriadau cefndir a phrofion gwybodaeth, yn fwy effeithiol na modiwl(au) hyfforddi gorfodol.” Sector gorfodi

“Mae hyfforddiant yn angenrheidiol, ond dylai hawliau taid barhau”
Sector gorfodi

138. Byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid yn y sector gorfodi a'r sector cynghori yn ogystal â darparwyr hyfforddiant presennol wrth ddatblygu cynnwys y cymhwyseddau. Byddwn yn adeiladu ar sail hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu eisoes i leihau unrhyw faich diangen ar fusnesau presennol.

Argymhelliad 19

Dylid cael set o feini prawf cymhwysedd ar gyfer ymuno â'r proffesiwn gorfodi a system hyfforddiant gorfodol.

Camau Unioni a Delio â Chwynion

139. Roedd y papur ymgynghori'n disgrifio'r gweithdrefnau presennol ar gyfer delio â chwynion ac yn gofyn am farn ynghylch a oedd hyn yn ddigonol. (Cwestiwn 53)
140. Roedd y rhan fwyaf o'r sector gorfodi a'r credydwy'r yn cytuno bod y broses gwynion bresennol yn ddigonol ac nad oedd angen unrhyw ymyrraeth bellach gan Lywodraeth. Nid oedd y sector cynghori'n cytuno, fodd bynnag, a dadleuai fod y prosesau sydd ar waith wedi'u cael yn aneffeithiol neu'n annigonol. Mae prosesau cwynion sy'n cael eu rhedeg gan gymdeithasau'r fasnach orfodi yn ogystal â phrosesau mewnol y cwmnïau beiliaid yn ddefnyddiol ond, drwy ddiffiniad, ni allant fod yn annibynnol na delio ag anghydfodau mewn ffordd ystyrion a gwrthrychol. Maent yn awgrymu y dylid cael proses gwynion annibynnol.
141. Mae Ombwdsmon Llywodraeth Leol yn cefnogi safbwynt y Llywodraeth ar beidio â sefydlu corff cwynion ar gyfer y diwydiant gan ei fod yn pryderu ynghylch effaith cynnig o'r fath ar ei awdurdodaeth ei hun.
142. Credwn y bydd y newidiadau arfaethedig yn y gyfraith, y ffioedd a'r broses ardystio'n fodd i ddelio â rhai o'r problemau presennol yng nghyswllt cwynion. Er hynny, mae'n glir bod angen cydweithio â'r holl randdeiliaid ac Ombwdsmon Llywodraeth Leol i egluro manylion y broses gwynion fel y bydd mwy o ddealltwriaeth o'r ffordd y gall dyledwyr geisio cael iawn. Gwneir hynny, yn benodol, drwy ddangos y camau unioni sydd ar gael a lle y maent ar gael.

Gorchymyn Awdurdodaeth y Llys Sirol a'r Uchel Lys 1991

143. Roedd y papur ymgynghori'n gofyn am farn ynghylch a ddylid diwygio Gorchymyn Awdurdodaeth y Llys Sirol a'r Uchel Lys 1991 i ddileu'r cyfyngiadau presennol ar gamau gorfodi i adennill dyledion mewn dyfarniad. Llai na hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno ar y cynnig er bod pryderon wedi'u mynegi na ddylai hyn gael ei gyfyngu i Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys. Roedd ymatebwyr a oedd yn erbyn y newid yn awgrymu y byddai ffioedd Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys yn anghymesur â'r ddyled ac, am ei bod yn bosibl y byddai nifer yr achosion yn cynyddu, y byddai angen adolygu eu strwythur ffioedd cyn cyflwyno unrhyw newidiadau. (Cwestiwn 54)
144. Byddwn yn ystyried effaith y trefnau ffioedd newydd cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch diwygio'r gorchymyn awdurdodaeth.

Asesu Effaith

145. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr ein bod wedi pennu amrediad a maint yr effeithiau o'r diwygiadau hyn. Mae Asesiad Effaith Terfynol wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn sy'n cynnwys atodiad ar ystyriaethau o ran cydraddoldeb.

Ystyriaethau o ran Cydraddoldeb

146. Gan ddal sylw ar ein cyfrifoldebau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 rydym wedi ystyried yr effeithiau cyffredinol y mae'r cynigion hyn yn debygol o'u cael ar unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig.
147. Nod y cynigion yw symleiddio'r broses gorfodi a'i gwneud yn gliriach, gan wneud asiantau gorfodi'n fwy atebol a delio â gweithgarwch gorfodi diangen neu ymosodol. Felly maent yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar ddyledwyr neu ar y rheini sydd ag incwm isel (sy'n fwy tebygol o fod mewn dyled).
148. Rydym wedi defnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i bennu nodweddion gwarchoddedig y rheini y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt. Prif ffynhonnell y wybodaeth am ddyledwyr posibl yw'r Arolwg o Gyfoeth ac Asedau (WAS), arolwg hydredol o aelwydydd sy'n casglu gwybodaeth am gynilion, dyledion a ffactorau eraill sy'n effeithio ar gynllunio ariannol.¹ Lle nad oes data ar ddyledion i'n helpu i ddangos yr effaith ddichonol ar grwpiau penodol (e.e. i asesu'r effaith ddichonol o ran hil), mae data ar incwm o ddadansoddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog wedi'u defnyddio'n brocsi amdanynt.²
149. Gan fod y bobl ganlynol sydd â nodweddion gwarchoddedig yn fwy tebygol o fod mewn dyled neu o fod yn fwy niferus ar gyfartaledd ymhlith y rheini sydd ag incwm isel (o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol), rydym yn credu mai nhw fydd yn elwa'n bennaf o'r cynigion:
- Dyledwyr anabl
 - Dyledwyr 25–34 blwydd oed
 - Y rheini sydd â chefnidir du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol (sy'n fwy tebygol o fod ag incwm is)
 - Dyledwyr sy'n unig rieni (y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fenywod).
150. Y rheswm am hyn yw bod nifer o fesurau penodol sydd â'r amcan o amddiffyn y rheini sydd mewn dyled pan fo angen cymryd camau gorfodi, gan gynnwys proses well ar gyfer ardystio a sicrhau cymhwysedd; hyfforddiant gorfodol; a gwell amddiffyniad i bobl fregus.
151. Mae'n bosibl, er hynny, mewn rhai achosion (e.e. lle y bydd lefelau ffioedd yn uwch) y bydd y cynigion yn cael effeithiau anffafriol ar

¹ Gweler <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/was/wealth-in-great-britain-wave-2/index.html>

² Adams, N. et al (goln) (2012) *Households Below Average Income: An analysis of the income distribution 1994/95 – 2010/11* Llundain: Adran Gwaith a Phensiynau

ddyledwyr gan greu effeithiau canlyniadol o ran cydraddoldeb oherwydd y ffactorau sydd wedi'u hegluro uchod. Felly mae nifer o fesurau wedi'u cymryd i leihau'r effeithiau posibl hyn o ran cydraddoldeb gan gynnwys y cam gweinyddu cyn cymryd camau gorfodi. Mae hyn yn rhoi cyfle ychwanegol i dalu i ddyledwyr. Os bydd tystiolaeth yn ystod y cam gorfodi gweithredol fod y dyledwr yn fregus ac nad yw wedi gallu cymryd rhan yn y broses adennill dyledion cyn hynny, bydd cyfle i droi'n ôl at y cam gweinyddu a dim ond ffi'r cam gweinyddu a fydd yn daladwy; a dim ond un ffi a godir yn y cam gorfodi mewn achosion lle y mae nifer o warantau.

152. Bydd angen gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dyledwyr, credydwyr ac asiantau gorfodi anabl (e.e. y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu) i sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi wrth gymhwysu'r cynigion atynt. Yn benodol, bydd angen ystyried ffyrdd posibl o adnabod sefyllfaoedd lle y mae dyledwyr yn fregus wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer hyfforddiant beiliaid a gofynion ar gyfer ardystio a sicrhau cymhwysedd beiliaid.
153. Er na chodwyd unrhyw faterion newydd sy'n ymwneud yn benodol â chydaddoldeb yn ystod yr ymgynghoriad, rydym yn ymwybodol o hyd o'r angen i sicrhau bod gwyliau diwylliannol a chrefyddol yn cael eu hystyried wrth gymryd unrhyw gamau gorfodi.

Dadansoddiad o'r Ymatebion

Safonau ac arweiniad

- C.1** Ydych chi'n cytuno â chynnwys y Safonau Cenedlaethol? Os nad ydych chi, a fydddech chi'n darparu cynigion i'w cynnwys?
- C.2** Ydych chi'n credu bod y gyfraith bresennol a'r Safonau Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Asiantau Gorfodi'n ddigon i ddatrys y problemau yr ydym wedi'u nodi neu a ydych chi'n teimlo bod angen rhagor o ymyrraeth o hyd gan y Llywodraeth fel sy'n cael ei nodi yng ngweddill y papur?
- C.3** Ydych chi'n teimlo bod bylchau yn yr ystod gwybodaeth sydd ar gael ar DirectGov? Os ydych chi, a fydddech gystal â darparu cynigion i'w cynnwys.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 1	59%	23%	18%
Cwestiwn 2	11%	72%	17%
Cwestiwn 3	63%	8%	29%

Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod cynnwys y Safonau Cenedlaethol yn briodol, cafwyd awgrymiadau gan y rhan fwyaf o ymatebwyr i'w gwella. Yr ymatebwyr a oedd yn fwyaf anfodlon ar y Safonau Cenedlaethol oedd y sector cynghori, cyrff cynrychiadol, dyledwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Ym mhob un o'r grwpiau hyn, roedd mwy o ymatebwyr a oedd yn anghytuno ar gynnwys y Safonau Cenedlaethol nag a oedd yn cytuno arno.

O ran y cynnwys presennol, y diffiniad o bersonau "bregus" oedd y maes a oedd yn peri'r pryder mwyaf. Barnwyd ei fod yn rhy gyfarwyddol ac y gallai gael ei gamddefnyddio. Credai nifer o ymatebwyr y dylid asesu bregusrwydd ym mhob achos ar wahân yn lle hynny. Cafwyd sylwadau o'r fath yn y rhan fwyaf o gategorïau ond roedd hyn yn peri pryder neilltuol i'r sector gorfodi, y sector cynghori a chredydwyr cyhoeddus.

Nodwyd meysydd posibl i'w cynnwys yn y Safonau hefyd, a chafwyd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau hyn gan y sector cynghori. Yn ogystal â nodi bod lle i wella cynnwys y Safonau presennol drwy ymhelaethu a chynnwys mwy o fanylion, gwnaethant awgrymu nifer o ychwanegiadau posibl. Roedd y rhain yn cynnwys arweiniad ar y canlynol:

- cydgysylltu â'r sector cynghori;
- cynigion i dalu'n ôl;
- rhoi "seibiant" i ddyledwyr;

- dyletswydd cyfraith gyhoeddus yr asiant gorfodi (gan gyfeirio at Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010);
- nwyddau trydydd parti;
- pwerau a dull mynediad;
- arweiniad ar drafod achosion lle y mae nifer o warantau.

Y brif feirniadaeth ar y Safonau oedd nad oeddent yn mynd yn ddigon pell am eu bod yn rhai gwirfoddol. Cafwyd ymatebion gan yr holl sectorau a oedd yn datgan nad oedd fawr ddim, heb fod rhwymedigaeth gyfreithiol, i gymell beiliaid diegwyddor i gydymffurfio â nhw. Roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn yr ymatebion i gwestiwn 2 a oedd yn dangos, hyd yn oed o ddiwygio'r Safonau Cenedlaethol, fod cryn awydd o hyd am newid yn y gyfraith bresennol.

C.2 Ydych chi'n credu bod y gyfraith bresennol a'r Safonau Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Asiantau Gorfodi'n ddigon i ddatrys y problemau yr ydym wedi'u nodi neu a ydych chi'n teimlo bod angen rhagor o ymyrraeth o hyd gan y Llywodraeth fel sy'n cael ei nodi yng ngweddill y papur?			
Categori'r ymatebydd	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Sector cynghori	3%	76%	21%
Credydwr preifat	20%	30%	50%
Credydwr cyhoeddus	18%	71%	11%
Dyledwr	0%	71%	29%
Sector gorfodi	7%	89%	4%
Y Farnwriaeth	0%	83%	17%
Cyrff Ombwdsmyn	25%	50%	25%
Aelodau Seneddol	100%	0%	0%
Aelodau o'r Cyhoedd	0%	81%	19%
Cyrff cynrychiadol	7%	67%	26%
Cyfanswm	13%	70%	17%

Cafwyd galwadau gan bob sector am wneud y cyfreithiau presennol yn gliriach gan eu bod yn cael eu gweld yn gymhleth heb fod angen hynny. Cafwyd sylwadau am rai ffyrdd o wneud hyn. Teimlai nifer o ymatebwyr yn y sector gorfodi fod modd cyflawni hyn drwy weithredu Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 tra oedd ymatebwyr yn y rhan fwyaf o'r sectorau eraill, ond yn y sector cynghori'n benodol, yn galw am sefydlu rheoleiddiwr annibynnol. Prin oedd yr ymatebion i'r cwestiwn gan y sectorau eraill a oedd yn manylu ar yr ymyrraeth arfaethedig gan lywodraeth.

Dangosodd yr ymgynghoriad fod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo bod bylchau yn y wybodaeth am feiliaid ar wefan DirectGov, a mynegwyd pryder penodol gan y sector gorfodi, credydwr cyhoeddus a'r sector cynghori. Roedd nifer o ymatebwyr yn y sector gorfodi ac ymhlith credydwr yn teimlo bod y wybodaeth a oedd ar gael yn gamarweiniol a'i bod yn aml yn gwbl groes i'r arweiniad sydd yn y Safonau Cenedlaethol. Yn benodol, er bod y cyngor i ddyledwr nad oes rhaid iddynt agor y drws i feiliaid yn ffeithiol gywir, roedd nifer mawr yn teimlo nad oedd hyn yn fawr o help i ddyledwr nac i'r asiantau gorfodi.

Yn yr un modd â'r Safonau Cenedlaethol, nododd ymatebwyr yn y sector cynghori yr hoffent weld mwy o fanylion yn y wybodaeth bresennol sydd ar y wefan ac awgrymwyd meysydd newydd i'w cynnwys. Ymhlith y rhain yr oedd esboniadau o fathau o ddyled, ffioedd, terminoleg gyffredin a chyngor, neu ddolenni ar gyfer cael cyngor, ynghylch cynlluniau ad-dalu er enghraifft.

Roedd nifer o ymatebwyr wedi mynegi diddordeb mewn cyfrannu at unrhyw adolygiad o'r wefan.

Defnyddio grym

C.4 Ydych chi'n cytuno na ddylai asiantau gorfodi allu defnyddio grym yn erbyn unigolyn? Os nad ydych chi, esboniwch pam, gan ddarparu dadl i gefnogi hynny a thystiolaeth ynghylch pryd y byddai'n ddefnyddiol.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 4	75%	8%	17%

C4. Ydych chi'n cytuno na ddylai asiantau gorfodi allu defnyddio grym yn erbyn unigolyn?

Dadansoddiad o'r ymatebion fesul categori

Unanswered	Heb ei ateb
No	Nac ydw
Yes	Ydw
Enforcement sector	Sector gorfodi
Creditor (Public)	Credydwr cyhoeddus
Creditor (Private)	Credydwr preifat
Debtor	Dyledwr
Advice	Sector cynghori
Judiciary	Y Farnwriaeth
Representative Bodies	Cyrff cynrychiadol
Ombudsman organisations	Cyrff Ombwdsmyrn
Members of the Public	Aelodau o'r Cyhoedd
Members of Parliament	Aelodau Seneddol

Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr na ddylai asiantau gorfodi byth ddefnyddio grym yn erbyn unigolyn ac roedd cytundeb rhwng y sectorau ar hyn. Mewn nifer o gategoriâu nid oedd unrhyw ymatebion a oedd yn datgan bod y defnydd o rym yn dderbyniol (aelodau o'r cyhoedd, y farnwriaeth, cyrff cynrychiadol a chyrrff ombwdsmyrn). Y grŵp lle'r oedd y gefnogaeth fwyaf i ddefnyddio grym yn erbyn unigolyn oedd y sector gorfodi – er mai dim ond 24% o'u hymatebion a oedd yn datgan hynny. Roedd ymatebwyr a oedd o blaid defnyddio grym rhesymol yn credu bod hyn yn angenrheidiol mewn sefyllfaedd penodol, er enghraifft, lle y mae dyledwr yn atal yn gorfforol neu'n rhwystru'r beili rhag cyflawni ei ddyletswyddau neu lle y mae angen i'r beili ei amddiffyn ei hun rhag ymosodiad gan y dyledwr. Roedd rhai ymatebwyr a deimlai na ddylid caniatáu defnyddio grym rhesymol yn derbyn y gallai fod yn angenrheidiol er mwyn hunanamddiffyn er ei bod wedi'i nodi bod deddfwriaeth bresennol ynghylch hunanamddiffyn i fod yn ddigonol mewn achosion o'r fath.

Cael mynediad i eiddo

- C.5** Ydych chi'n cytuno bod angen i'r llys gael ei fodloni am rai amodau cyn y bydd yn rhoi'r hawl i ddefnyddio grym rhesymol i gael mynediad i adeilad ac y dylai'r amodau gael eu pennu mewn rheoliadau? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.
- C.6** Ydych chi'n cytuno â'r amodau penodedig sydd wedi'u gosod? Os nad ydych chi, a wnewch chi ddarparu cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.
- C.7** Ydych chi'n ystyried y dylai asiant gorfodi sy'n gweithredu dyled Uchel Lys neu lys sirol:
- orfod gwneud cais i'r llys i ddefnyddio grym rhesymol os bydd rhaid wrth fynd i mewn i unrhyw eiddo busnes; neu
 - a ddylai gael pŵer cyffredinol?

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 5	61%	16%	23%
Cwestiwn 6	39%	33%	28%

	A	B	Dim ymateb	Nid A na B
Cwestiwn 7	25%	31%	41%	3%

Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr y dylai llys awdurdodi'r defnydd o rym rhesymol i gael mynediad i eiddo ac y dylai'r awdurdodiad hwn gael ei benderfynu ar sail set o amodau sydd wedi'u rhagnodi. Roedd cytundeb ar hyn rhwng y sectorau. Teimlwyd y byddai dull gweithredu o'r fath yn sicrhau bod y camau'n briodol a chymesur, gan amddiffyn dyledwyr rhag beiliaid ymosodol ac atal dyledwyr hefyd rhag "cuddio y tu ôl i ddrws wedi'i gloi". Y

sector gorfodi oedd y grŵp a oedd yn fwyaf pryderus ynghylch yr awgrym hwn a dywedodd y byddai hyn yn creu baich gweinyddol ychwanegol, a fyddai'n arafu'r broses gorfodi ac yn ychwanegu at ei chostau. Roedd nifer o aelodau o'r cyhoedd a oedd yn teimlo nad oedd cael mynediad drwy rym byth yn dderbyniol.

C.6 Ydych chi'n cytuno â'r amodau penodedig sydd wedi'u gosod? Os nad ydych chi, a wnewch chi ddarparu cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.

No response	Dim ymateb
No	Nac ydw
Yes	Ydw
Advice	Sector cynghori
Creditor (Private)	Credydwr preifat
Creditor (Public)	Credydwr cyhoeddus
Debtor	Dyledwr
Enforcement sector	Sector gorfodi
Judiciary	Y Farnwriaeth
Members of Parliament	Aelodau Seneddol
Members of the Public	Aelodau o'r Cyhoedd
Ombudsman organisations	Cyrff Ombwdsmyn
Representative Bodies	Cyrff cynrychiadol
Total	Cyfanswm

Cafwyd ymateb cymysg ar draws y sectorau i'r amodau rhagnodedig a fyddai'n sail i asesiad y llys. Fodd bynnag, y sector cynghori a'r sector gorfodi oedd yr unig grwpiau lle'r oedd mwy o ymatebwyr yn anghytuno ar yr amodau rhagnodedig nag a oedd yn cytuno. Yn y sector gorfodi, y prif destun pryder eto oedd y gallai'r amodau greu cyfle i ddyledwyr symud nwyddau i gyfeiriad arall fel na fyddai modd eu hatafael. Roedd ymatebwyr yn y sector cynghori a anghytunai ar yr amodau'n dymuno gweld yr ystyriaethau canlynol yn cael eu cynnwys:

- y ffordd y mae'r dyledwr wedi ymddwyn;
- amgylchiadau'r dyledwr (gan gynnwys asesiad y credydwr o unrhyw fregusrwydd);
- y tebygolrwydd o ddod o hyd i nwyddau y mae'n werth cymryd rheolaeth drostynt, o wybod am y unigolyn, ei ddyledion a'r ardal lle y mae'r unigolyn yn byw;
- nad yw cais wedi'i dderbyn i atal y camau gorfodi neu i ddiwygio'r telerau talu.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid cael pŵer cyffredinol i asiantau gorfodi sy'n casglu dyledion dan awdurdod yr Uchel Lys neu lys sirol i

ddefnyddio grym rhesymol i gael mynediad i eiddo busnes er bod yr ymatebion o fewn sectorau'n gymharol gymysg. Y grwpiau a oedd yn fwyaf cefnogol at ei gilydd oedd ymatebwyr yn y sector gorfodi, credydwr cyhoeddus a phreifat, y farnwriaeth a chyrrff ombwdsmyrn. Nododd nifer o'r ymatebwyr hyn y byddai gwneud cais i lys yn peri bod camau gorfodi'n ddrutach ac yn cymryd mwy o amser ac yn rhoi baich ychwanegol ar lysoedd. Nododd rhai ymatebwyr o blith credydwr cyhoeddus a'r farnwriaeth y byddai cais o'r fath yn dyblygu pwerau sydd gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys eisoes a chytunai nifer bach o feiliaid a chredydwr cyhoeddus y byddai rhoi pŵer cyffredinol yn cadw'r sefyllfa fel yr oedd ar hyn o bryd.

Y rheini a oedd yn dueddol i wrthwynebu cynnig o'r fath oedd y sector cynghori, dyledwyr ac aelodau o'r cyhoedd a oedd yn pryderu y byddai'n bosibl i bŵer o'r fath gael ei gamddefnyddio. Credent y byddai modd atal hynny drwy wneud y cais yn ofynnol. Dadleuodd 20 o ymatebwyr y dylai'r pŵer cyffredinol i ddefnyddio grym rhesymol, os oedd angen, wrth gael mynediad i unrhyw eiddo busnes fod ar gael ar gyfer pob math o ddyled ac nid dyledion dan yr Uchel Lys a'r llys sirol yn unig. Roedd 10 o'r ymatebwyr hyn yn y sector gorfodi, ac roedd y gweddill yn gredydwr preifat a chyhoeddus.

C.7 Ydych chi'n ystyried y dylai asiant gorfodi sy'n gweithredu dyled Uchel Lys neu llys sirol: (a) orfod gwneud cais i'r llys i ddefnyddio grym rhesymol os bydd rhaid wrth fynd i mewn i unrhyw eiddo busnes; neu (b) a ddylai gael pŵer cyffredinol?

Neither	Y naill na'r llall
Unanswered	Heb ei ateb
Enforcement sector	Sector gorfodi
Creditor (Public)	Credydwr cyhoeddus
Creditor (Private)	Credydwr preifat
Debtor	Dyledwr
Advice	Sector cynghori
Judiciary	Y Farnwriaeth
Representative Bodies	Cyrrff cynrychiadol
Ombudsman organisations	Cyrrff Ombwdsmyrn
Members of the Public	Aelodau o'r Cyhoedd
Members of Parliament	Aelodau Seneddol
Total	Cyfanswm

Cael ailfyndiad i eiddo

C.8 Ydych chi'n cytuno bod angen i'r llys gael ei fodloni ynghylch rhai amodau cyn y bydd yn rhoi'r hawl i ddefnyddio grym rhesymol i gael ailfyndiad i adeilad ac y dylai'r amodau gael eu rhagnodi mewn rheoliadau? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C.9 Ydych chi'n cytuno â'r amodau rhagnodedig sydd wedi'u gosod? Os nad ydych chi, a wnewch chi ddarparu cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.

C.10 Ydych chi'n ystyried y dylai asiant gorfodi:

- a) orfod gwneud cais i'r llys i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd rhaid, wrth fynd i mewn am yr eildro i'r eiddo mewn rhai amgylchiadau; neu
- b) a ddylai gael pŵer cyffredinol?

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 8	28%	44%	28%
Cwestiwn 9	26%	37%	37%

	A	B	Dim ymateb	Nid A na B
Cwestiwn 10	21%	51%	24%	4%

C.10 Ydych chi'n ystyried y dylai asiant gorfodi: (a) orfod gwneud cais i'r llys i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd rhaid, wrth fynd i mewn am yr eildro i'r eiddo mewn rhai amgylchiadau; neu (b) a ddylai gael pŵer cyffredinol?

Neither	Y naill na'r llall
Unanswered	Heb ei ateb
Advice	Sector cyngori
Creditor (Private)	Credydwr preifat
Creditor (Public)	Credydwr cyhoeddus
Debtor	Dyledwr
Enforcement sector	Sector gorfodi
Judiciary	Y Farnwriaeth
Members of Parliament	Aelodau Seneddol
Members of the Public	Aelodau o'r Cyhoedd
Ombudsman organisations	Cyrff Ombwdsmyrn
Representative Bodies	Cyrff cynrychiadol
Total	Cyfanswm

Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod angen i lys gael ei fodloni bod amodau penodol wedi'u cyflawni cyn awdurdodi'r defnydd o rym rhesymol i gael aifynediad i eiddo. Nid oeddent yn cytuno chwaith ar yr amodau sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid cael pŵer cyffredinol. Y categorïau a oedd yn fwyaf cefnogol i hyn oedd y sector gorfodi a chredydwr cyhoeddus. Roedd yr holl ymatebwyr yn y sector gorfodi a atebodd gwestiwn 10 o blaid cael pŵer cyffredinol i ddefnyddio grym rhesymol i gael aifynediad i bob eiddo mewn amgylchiadau penodol heb wneud cais ychwanegol i'r llys.

Ystyrid bod y pŵer cyffredinol yn angenrheidiol i sicrhau camau gorfodi effeithiol. Heb gael pwerau o'r fath, neu o gael y pwerau a nodwyd yn yr amodau rhagnodedig, dadleuwyd y byddai'r broses gorfodi'n mynd yn rhy hir, fel bod mwy o amser gan ddyledwyr i symud nwyddau i safle arall, ac fel na fyddai fawr o gymhelliad i asiantau gorfodi wneud cytundeb nwyddau dan reolaeth â dyledwyr ar yr ymweliad cyntaf. Yn yr un modd â chwestiwn 7, roedd pryder ymysg rhai y byddai gofyniad i wneud ceisiadau ychwanegol i'r llys yn rhoi gormod o faich ar y system llysoedd ac y byddai'n ddrud – ffactor sydd heb ei ystyried wrth lunio'r strwythur ffioedd arfaethedig ym marn ymatebwyr yn y sector gorfodi.

Y sector cynghori, aelodau o'r cyhoedd a'r farnwriaeth oedd y grwpiau a oedd yn fwyaf gwrthwynebus i gael pŵer cyffredinol. Yn yr un modd â chwestiwn 7, y pryder mwyaf oedd y byddai'n bosibl i bŵer cyffredinol gael ei gamddefnyddio. Er bod y grwpiau hyn yn wrthwynebus at ei gilydd i gael pŵer cyffredinol i gael ailfynediad i eiddo domestig, roedd llai o bryder ynghylch pŵer cyffredinol i gael ailfynediad i eiddo masnachol.

Camau gorfodi

Cymryd rheolaeth dros nwyddau

C.11 Ydych chi'n cytuno â'r terfyn amser 12 mis ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu cyfnod arall ynghyd â dadl ategol.

C.12 Ydych chi'n cytuno â'r cyfnod rhybudd lleiaf cyn cymryd rheolaeth dros nwyddau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dadl arall ategol.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 11	57%	22%	21%
Cwestiwn 12	59%	22%	19%

Roedd cefnogaeth i'r cynnig ar gyfer terfyn amser o 12 mis ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau a'r cyfnod rhybudd lleiaf o saith diwrnod ar gyfer hyn. Roedd y sector gorfodi, y farnwriaeth a chredydwyr cyhoeddus yn gefnogol iawn i'r ddau gynnig. Y sector cynghori oedd yr unig grŵp lle'r oedd mwy o ymatebwyr yn anghytuno nag a oedd yn cytuno yn eu hatebion i'r ddau gwestiwn. Er bod yr ymatebwyr yn y categorïau eraill yn gefnogol i'r cynigion at ei gilydd, roedd niferoedd y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno'n fwy cyfartal.

Dywedodd y rheini a oedd o blaid y cyfnod rhybudd a'r terfyn amser fod y ddau gyfnod hyn yn rhesymol. Cafwyd nifer o sylwadau, yn enwedig gan gredydwyr cyhoeddus a'r sector gorfodi, fod y cyfnod rhybudd o saith diwrnod yn benodol yn fwy na digon gan y byddai'r dyledwr eisoes wedi cael nifer o gyfleoedd i dalu. Er hynny, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'n fuddiol

cael mwy o eglurhad ynghylch pryd yn union y byddai'r cyfnod rhybudd/terfyn amser yn dechrau.

Roedd y rheini a oedd yn erbyn terfyn amser o 12 mis yn ei wrthwynebu'n bennaf am nad oeddent yn credu ei fod yn ddigon mewn achosion ynghylch y dreth gyngor lle'r oedd cyfnod rhybudd o 24 mis yn cael ei ystyried yn fwy perthnasol. Roedd safbwyntiau croes ymysg y rheini a wrthwynebai'r cyfnod rhybudd lleiaf o saith diwrnod, sef ei fod un ai'n rhy hir neu'n rhy fyr. Roedd y rheini a deimlai ei fod yn rhy fyr yn pryderu am ddyledwyr na fyddai wedi derbyn y rhybudd, am eu bod ar wyliau er enghraifft, tra oedd eraill am ei ymestyn i 14 diwrnod i adlewyrchu'r arferion ar gyfer Adennill Ôl-ddyledion Rhent Masnachol, er mwyn cael cysondeb rhwng mathau o ddyled. Roedd nifer o feiliaid a chredydwyr preifat a gredai fod y cyfnod yn rhy hir yn pryderu ei fod yn rhoi amser i'r dyledwr ffoi.

Dulliau ac amseroedd mynediad

- C.13** Ydych chi'n cytuno â'r dulliau mynediad ac ailfynediad? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.
- C.14** Ydych chi'n cytuno y dylai'r asiant gorfodi allu cael mynediad i eiddo ar unrhyw ddiwrnod? Os na, cynigiwch derfynau gyda dadl i gefnogi.
- C.15** Ydych chi'n cytuno â'r terfynau amser o 6.00am a 9.00pm ar gyfer cael mynediad i eiddo preswyl llwyr? Os na, cynigiwch derfynau eraill gyda dadl i gefnogi.
- C.16** Ydych chi'n cytuno y dylai'r asiant gorfodi allu cymryd rheolaeth dros nwyddau ar unrhyw ddiwrnod? Os na, cynigiwch derfynau gyda dadl i gefnogi.
- C.17** Ydych chi'n cytuno â'r terfynau amser o 6.00am a 9.00pm ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau? Os na, cynigiwch derfynau eraill gyda dadl i gefnogi.
- C.18** Ydych chi'n cytuno y dylid caniatáu i'r asiant gorfodi fwrw ymlaen y tu allan i'r terfyn oriau lle mae'r broses wedi cychwyn yn barod? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

Fel y mae'r tabl isod yn dangos, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno ar y cynigion sydd yng nghwestiynau 13 i 18 ynghylch y dulliau a'r amseroedd ar gyfer cael mynediad i eiddo a chymryd rheolaeth dros nwyddau. Yr ymatebwyr a oedd yn fwyaf o blaid y cynigion hyn oedd y rhai yn y sector gorfodi, credydwyr cyhoeddus a phreifat, y farnwriaeth a chyrrff cynrychiadol.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 13	66%	11%	23%
Cwestiwn 14	58%	23%	19%
Cwestiwn 15	60%	21%	19%

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 16	59%	21%	20%
Cwestiwn 17	52%	26%	22%
Cwestiwn 18	64%	13%	23%

At ei gilydd, roedd y grwpiau hyn yn croesawu'r newidiadau yn y dulliau mynediad a oedd i'w caniatáu a dywedodd nifer ohonynt y byddai hyn yn atal beiliaid diegwyddor rhag eu defnyddio i godi braw. Teimlai nifer ei bod yn hen bryd cael newidiadau o'r fath er mwyn moderneiddio'r diwydiant ac y byddai hyn yn dileu unrhyw amwysedd ynghylch beth yr oedd asiantau gorfodi'n cael ei wneud. Roedd croeso i'r cynnig i ganiatáu mynediad ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos a nododd ymatebwyr ei bod yn aml yn anymarferol cyfyngu gweithgarwch yn ystod gwyliau crefyddol gan nad oedd gan feiliaid wybodaeth berthnasol am y dyledwr fel arfer i allu penderfynu ar hynny. Dywedodd nifer fod y Safonau Cenedlaethol yn rhoi arweiniad buddiol ar weithgareddau yn ystod diwrnodau o'r fath.

Roedd y grwpiau hyn hefyd yn gefnogol at ei gilydd i'r cynigion ynghylch terfynau amser ac yn eu hystyried yn rhesymol ac yn briodol. Er hynny, nododd rhai fod 6am yn rhy gynnar o bosibl, na ddylai terfynau o'r fath fod yn gymwys i gerbydau ar y briffordd ac, os oedd camau gorfodi i'w cwblhau y tu allan i'r oriau hyn, y dylid eu cwblhau o fewn cyfnod rhesymol (e.e. o fewn 30–60 munud). Dywedodd nifer o gredydwr cyhoeddus fod yr amseroedd yn fan cychwyn defnyddiol ac y gellid eu cyfyngu ymhellach, os oedd angen, yn eu contractau â chwmnïau beiliaid. Nododd eraill y gellid gwneud cais i'r llys am awdurdod i ymweld a chymryd rheolaeth dros nwyddau y tu allan i'r oriau hyn os oedd angen e.e. mewn achosion sy'n ymwneud â gweithwyr sifftiau.

C.15 Ydych chi'n cytuno â'r terfynau amser o 6.00am a 9.00pm ar gyfer cael mynediad i eiddo preswyl llwyr?

Unanswered	Heb ei ateb
No	Nac ydw
Yes	Ydw
Enforcement sector	Sector gorfodi
Creditor (Public)	Credydwr cyhoeddus
Creditor (Private)	Credydwr preifat
Debtor	Dyledwr
Advice	Sector cynghori
Judiciary	Y Farnwriaeth
Representative Bodies	Cyrff cynrychiadol
Ombudsman organisations	Cyrff Ombwdsmyn
Members of the Public	Aelodau o'r Cyhoedd
Members of Parliament	Aelodau Seneddol

Er bod yr ymatebion gan y sector cynghori, dyledwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn gymysg, roedd y rhan fwyaf yn fwy gwrthwynebus at ei gilydd i'r cynigion nag yr oeddent o'u plaid. Teimlai rhai y byddai caniatáu mynediad ar unrhyw ddiwrnod yn gallu bod yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy wahaniaethu'n anuniongyrchol. Roeddent yn awgrymu ei bod yn annhebygol y byddai camau gorfodi ar Ddiwrnod Nadolig ond y byddent yn digwydd ar ddyddiau gŵyl crefyddau eraill. Ystyrid bod y terfynau amser yn rhy gynnar ac yn rhy hwyr, gan greu posibilrwydd o annifyrrwch i'r dyledwr a gofid i unrhyw blant a oedd yn bresennol yn ystod y cyfnodau hyn. Roedd pryder hefyd na fyddai cyngor am ddim ar gael o linellau/canolfannau cymorth yn ystod yr oriau hyn. Awgrymwyd terfynau amser eraill rhwng 8/9am a 7/8pm. Roedd y brif feirniadaeth yng nghyswllt cwestiwn 18, am gwblhau camau gorfodi y tu allan i'r oriau a ragnodwyd, yn ymwneud â'r ddadl y byddai hyn yn cymhlethu'r ddeddfwriaeth ac yn achosi mwy o ddryswch i ddyledwyr. Nododd rhai o'r ymatebwyr hyn y gellid ystyried cymhwyso'r cynigion hyn at eiddo masnachol, er nad oeddent yn addas ar gyfer eiddo domestig.

Cymryd rheolaeth dros nwyddau

C.19 Ydych chi'n cytuno â'r amrediad o nwyddau eithriedig? Os nad ydych chi, a fydddech chi'n cynnig cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 19	44%	37%	19%

Cafwyd ymatebion cymysg am yr amrediad o nwyddau eithriedig. Yn gyffredinol, teimlai'r sector cynghori fod angen rhestr ddiffiniol tra oedd eraill yn teimlo y byddai hyn yn rhy feichus a chyfyngol. Cynigiodd nifer o ymatebwyr y sector gorfodi mai dim ond os oedd gan ddyledwr fwy nag un eitem o fath penodol y dylid ei chymryd. Codwyd amheuan gan rai ym mhob un o'r grwpiau ynghylch nifer o'r nwyddau a oedd wedi'u cynnwys. Ymhlith y rhain yr oedd dyfeisiau ffôn/rhyngwyd y gellid eu hystyried yn nwyddau moeth (iPads, setiau teledu rhyngweithiol). Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn deall pam yr oedd eitemau mewn coffor wedi'u heithrio ac roedd nifer yn y sector gorfodi ac ymhlith credydwy cyhoeddus yn credu bod hyn yn tansellio'r broses gorfodi i bob pwrpas. Galwyd hefyd am fwy o eglurder ynghylch rhai eitemau yn yr amrediad fel "appliances" a "heating and lighting". Roedd pryder mawr yn y sector cynghori nad oedd tegau wedi'u rhestru ar wahân i'w heithrio. Mynegwyd pryderon gan y sector gorfodi a chredydwy cyhoeddus ynghylch cerbydau sy'n dangos bathodyn glas (mae cynllun y Bathodyn Glas ar gyfer gyrwyr neu deithwyr sydd â phroblemau symud difrifol ac yn caniatáu iddynt barcio'n agos i ben eu taith). Ofnai'r ymatebwyr hyn fod eithrio cerbydau bathodyn glas yn awtomatig yn creu cyfle i osgoi camau atafaelu drwy symud bathodyn o gerbyd arall.

C.20 Ydych chi'n cytuno y dylai'r dyledwr allu awdurdodi rhywun arall i ymrwymo i gytundeb nwyddau dan reolaeth? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C.21 Ydych chi'n cytuno y dylai unigolyn sydd mewn awdurdod i bob golwg allu ymrwymo i gytundeb nwyddau dan reolaeth? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 20	67%	14%	19%
Cwestiwn 21	62%	17%	21%

Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r cynigion hyn gan yr holl sectorau. Er hynny, seiniwyd rhybudd am rai pethau. Teimlwyd y dylid cael mwy o eglurder ynghylch y math o unigolyn a gâi wneud cytundeb – credwyd bod partner busnes neu reolwr yn addas, ond nid gweithiwr dros dro. Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu bod lle i gamddefnyddio'r dull hwn drwy roi pwysau diangen ar drydydd partiön gan asiantau gorfodi i lofnodi'r cytundebau hyn. Roedd credydwy'r cyhoeddus a'r sector cynghori'n awyddus i weld cyfyngu'r mesurau hyn i eiddo busnes er mwyn amddiffyn oedolion ifanc a allai fod yn fregus neu berthnasau oedrannus rhag pwysau i gytuno i wneud hyn mewn sefyllfa ddomestig. Roedd ymatebwyr eraill yn pryderu ynghylch y ffordd o ddatrys anghydfodau am awdurdodiad ac roeddent yn croesawu'r bwriad i ystyried hyn ymhellach.

Teimlai nifer o gredydwy'r ac asiantau gorfodi y byddai'n fuddiol caniatáu awdurdodi drwy ddulliau electronig er mwyn osgoi oedi wrth ddisgwyl am lofnod ar bapur.

Sicrhau nwyddau

C.22 Allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth ddiweddar sy'n cefnogi neu'n herio'r dull ar gyfer grymuso asiantau gorfodi i sicrhau'r eiddo cyfan?

	Gallaf	Na allaf	Dim ymateb
Cwestiwn 22	27%	36%	37%

Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid cael pŵer i ganiatáu i asiantau gorfodi sicrhau'r eiddo cyfan. Er hynny, cyflwynwyd ychydig o dystiolaeth a oedd o blaid neu yn erbyn yr awgrym hwn. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cyfyngu pŵer o'r fath i eiddo busnes. Teimlai rhai asiantau gorfodi y byddai hyn yn ddefnyddiol, yn enwedig mewn achosion lle'r oedd y dyledwr yn debygol o symud y nwyddau. Nodwyd y gallai'r pŵer gael ei gamddefnyddio ac y dylid gofalu mai dim ond er mwyn atafaelu nwyddau y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio ac nid i orfodi busnes i gau.

Tystiolaeth o blaid cael pŵer i sicrhau eiddo cyfan

“Unwaith cefais fy nghyfarwyddo i atafaelu nwyddau gwerth £97,000 ar gyfer dyled rhent mewn siop mewn canolfan siopa ... dywedodd perchennog y siop wrthyf y byddai'n trefnu i'r holl nwyddau gael eu symud yn syth wedi i mi ymadael. Nid oedd dewis gen i ond aros yn yr eiddo tan y bore wedyn nes bod y fan yn cyrraedd. Pe byddwn wedi gallu sicrhau'r siop, ni fyddwn wedi gorfod aros yno. Credaf y bydd yr opsiwn hwn yn gaffaeliad mawr mewn sefyllfaoedd o'r fath. Mae'n bwysig ei ddefnyddio fel dewis olaf yn unig ac nid i daflu rhywun allan o siop am ddyled o ryw £200. Dylid gosod terfyn o £2000.00 ar gyfer yr opsiwn hwn”. Sector gorfodi

“...lle'r oedd y camau atafaelu wedi'u cymryd mewn clwb snwcer am ôl-ddyled am ardrethi annomestig a lle nad oedd contractwyr arbenigol yn gallu dod tan y bore wedyn i ddatgymalu'r byrddau snwcer i'w symud a'u gwerthu. Gwnaeth perchnogion y clwb fygwth malu'r byrddau pe byddai'r asiantau gorfodi'n gadael y safle. Felly arhosodd yr asiantau gorfodi yno dros nos nes bod modd datgymalu'r byrddau snwcer a'u symud heb eu difrodi. Yn yr amgylchiadau sydd wedi'u disgrifio yn y rheoliadau, mae angen y pŵer hwn ar yr asiantau gorfodi i sicrhau'r eiddo cyfan a goruchwylio mynediad gan y dyledwr neu unrhyw drydydd parti er mwyn atal difrodi nwyddau neu eu symud yn llechwraidd.” Sector gorfodi

C.23 Ydych chi'n cytuno â'r terfyn amser ar gyfer cadw cerbyd yn ddisymud cyn y bydd yn cael ei symud i'w storio? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu cyfnod arall ynghyd â dadl ategol.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 23	24%	48%	28%

Yn gyffredinol, nid oedd y rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn gefnogol i'r terfyn amser er bod gwahaniaeth barn o fewn categorïau o ymatebwyr, fel y mae'r siart isod yn dangos.

Tystiolaeth yn erbyn cael pŵer i sicrhau eiddo cyfan

“Yn y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi ymateb i tua 35,000 o ymholiadau gan y cyhoedd ynghylch ymweliad gan feili. Yn y cyfnod hwnnw, nid ydym erioed wedi cael yr un ymholiad ynghylch sicrhau'r eiddo cyfan gan feili ac felly ni allaf weld y gwerth o gynnwys y cynnig hwn.” Sector cynghori

C. 23 Ydych chi'n cytuno â'r terfyn amser ar gyfer cadw cerbyd yn ddisymud cyn y bydd yn cael ei symud i'w storio?

Unanswered	Heb ei ateb
No	Nac ydw
Yes	Ydw
Enforcement sector	Sector gorfodi
Creditor (Public)	Credydwr cyhoeddus
Creditor (Private)	Credydwr preifat
Debtor	Dyledwr
Advice	Sector cynghori
Judiciary	Y Farnwriaeth
Representative Bodies	Cyrff cynrychiadol
Ombudsman organisations	Cyrff Ombwdsryn
Members of the Public	Aelodau o'r Cyhoedd
Members of Parliament	Aelodau Seneddol

Roedd y rheini a oedd o blaid y cyfnod o 24 awr yn credu bod hynny'n rhoi digon o amser i'r dyledwr dalu a threfnu i'r car gael ei ryddhau. Y sector gorfodi oedd y categori ymatebwyr lle'r oedd y gyfran fwyaf yn credu bod y cyfnod hwn yn rhy hir. Teimlent fod perygl i'r cerbyd gael ei fandaleiddio o fewn y cyfnod hwn neu y byddai'r dyledwr yn tynnu'r clamp. Ategwyd y pryderon hyn hefyd gan nifer o gredydwr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Roedd yn well gan rai ymatebwyr gael cyfnod hirach – cymaint â 14 o ddiwrnodau – i roi digon o amser i ddyledwr dalu'r ddirwy os oeddent ar ylliau neu'n absennol am reswm arall.

Gwerthu nwyddau

C.24 Ydych chi'n cytuno â'r cyfnod sydd wedi'i osod ar gyfer yr isafswm cyfnod cyn y gellir bwrw ymlaen â'r gwerthiant? Os nad ydych chi, esboniwch pam a darparu cyfnod arall ynghyd â dadl i gefnogi hynny.

C.25 A ddylid cynnwys unrhyw ddulliau gwerthu eraill yn y rheoliadau heblaw am gontract preifat, ceisiadau wedi'u selio neu hysbyseb? Os dylid, rhowch fanylion llawn.

	Ydw/Dylid	Nac ydw/ Na ddylid	Dim ymateb
Cwestiwn 24	64%	10%	26%
Cwestiwn 25	18%	47%	35%

Roedd ymatebwyr ym mhob un o'r grwpiau'n cytuno bod y cynnig ar gyfer y cyfnod lleiaf cyn symud ymlaen i werthu nwyddau yn briodol. Teimlai nifer o ymatebwyr fod hyn yn rhesymol a'i fod yn rhoi cyfle olaf i dalu'r ddyled. Roedd

rhai amheuon ymhlith credydwy, asiantau gorfodi a'r sector cynghori ynghylch pwy a fyddai'n prisio'r nwyddau yn y cam hwn gan fod rhai o'r farn nad oedd asiantau gorfodi'n gymwys i wneud hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a wrthwynebai'r awgrym hwn yng nghategoriâu'r credydwy ac aelodau o'r cyhoedd. Roedd credydwy preifat yn dymuno gweld cyfnod byrrach, rhwng 0 a 3 diwrnod. Roedd rhai ymhlith credydwy cyhoeddus ac aelodau o'r cyhoedd yn credu bod 14 diwrnod yn gyfnod mwy ymarferol.

Cynigiwyd dulliau gwerthu gwahanol gan ymatebwyr ym mhob categori ac roeddent yn adlewyrchu'r rhai a nodwyd yn y rheoliadau drafft. Roedd cefnogaeth i'r cynnig ynghylch y gallu i werthu nwyddau drwy'r rhyngwrwd, ac eBay yn benodol. Teimlai nifer ei bod yn bosibl sicrhau gwell pris nag mewn arwerthiannau traddodiadol drwy ddefnyddio dulliau o'r fath. Mynegwyd diddordeb hefyd mewn ymestyn rheoliad 39(2), sy'n darparu ar gyfer gwerthu ar y safle, i gynnwys dyledion am ardrethi annomestig a rhent yn ogystal ag asedau anodd eu symud.

C.26 Ydych chi'n cytuno â'r dull o ddelio â'r elw a wneir o werthu nwyddau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 26	49%	16%	35%

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr – y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno ar y cwestiwn hwn – yn cyd-weld mai'r arwerthwr a ddylai gael ei dalu gyntaf. Roedd nifer bach o gredydwy preifat a chyhoeddus yn awyddus i weld talu rhywfaint o'r ddyled wreiddiol o leiaf; roedd rhai ymatebwyr yn y sector gorfodi am weld eu costau nhw'n cael eu talu gyntaf, a nodwyd gan eraill y dylai dyledion "blaenoriaethol", fel taliadau cynnal plant, gael eu talu gyntaf os oeddent wedi'u pennu.

C.27 A oes unrhyw amgylchiadau eraill lle gellir tybio bod nwyddau wedi'u gadael?

	Oes	Nac oes	Dim ymateb
Cwestiwn 27	15%	40%	45%

Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau am gwestiwn 27 ynghylch gadael nwyddau. Roedd yr ychydig sylwadau a gafwyd yn galw am egluro'r terfyn amser ar gyfer cadw nwyddau gan feiliaid. Gofynnwyd am eglurhad ar hyn gan y sector cynghori a'r sector gorfodi yn ogystal â chyrrff cynrychiadol. Teimlwyd y dylai eitem gael ei dychwelyd i'r dyledwr os nad oedd wedi'i gwerthu ar ôl dau neu dri arwerthiant. Mynegwyd pryder gan un credydwr yn y sector cyhoeddus ynghylch pwy a fyddai'n talu'r costau am gasglu pe byddai'r berchnogaeth yn dychwelyd i'r dyledwr.

Bregusrwydd

C.28 Ydych chi'n ystyried bod angen diffinio bregusrwydd yn y rheoliadau? Os ydych chi, darparwch ddiffiniad ymarferol gyda dadl i gefnogi.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 28	27%	55%	18%

Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr am weld diffiniad o fregusrwydd mewn rheoliadau.

C.28 Ydych chi'n ystyried bod angen diffinio bregusrwydd yn y rheoliadau?

Dadansoddiad o'r ymatebion fesul categori

No response	Dim ymateb
No	Nac ydw
Yes	Ydw
Enforcement sector	Sector gorfodi
Creditor (Public)	Credydwr cyhoeddus
Creditor (Private)	Credydwr preifat
Debtor	Dyledwr
Advice	Sector cynghori
Judiciary	Y Farnwriaeth
Representative Bodies	Cyrff cynrychiadol
Ombudsman organisations	Cyrff Ombwdsmyd
Members of the Public	Aelodau o'r Cyhoedd
Members of Parliament	Aelodau Seneddol

Er bod gwahaniaeth barn o fewn pob sector ynghylch yr angen am ddiffinio bregusrwydd, roedd cytundeb rhwng yr holl grwpiau bod anawsterau ynghylch llunio diffiniad ymarferol o fregusrwydd. Codwyd yr un pryderon gan y rhai a oedd o blaid ac yn erbyn cael diffiniad. Credwyd y byddai rhestr o bobl fregus yn rhy gyfarwyddol ac y gallai gau pobl allan neu eu cynnwys heb fod angen, fel mai mater o dicio blychau fyddai'r asesiad a dim mwy.

Ystyrid bod bregusrwydd yn gyflwr hylifol y byddai pobl yn dod iddo ac yn ei adael ac na ellid ei grisialu drwy lunio rhestr gaeth. Serch hynny, roedd y sector cynghori'n credu bod un grŵp allweddol, pobl mewn trafferthion ariannol, a ddylai gael ei gynnwys os oedd bwriad i fabwysiadu rhestr, gan nad oeddent wedi'u hystyried cyn hynny.

Roedd yn well gan y rhan fwyaf o ymatebwyr weld bregusrwydd yn cael ei asesu fesul achos. Roedd nifer a oedd o blaid cael diffiniad yn derbyn hyn ac yn gofyn am lunio diffiniad digon cyffredinol i ganiatáu i asiantau gorfodi

wneud yr asesiad hwn. Gwelwyd bod y Safonau Cenedlaethol yn ganllaw da y gellid ei ddatblygu.

Pa un a fyddai diffiniad yn y rheoliadau neu beidio, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gytûn y dylai unrhyw ystyriaeth i fregusrwydd gael ei ategu gan hyfforddiant ar gyfer yr asiant gorfodi.

Atafaelu am rent

C.29 Ydych chi'n cytuno â'r wybodaeth y bydd yn rhaid i landlord ei darparu er mwyn awdurdodi asiant gorfodi i gymryd rheolaeth dros nwyddau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu rhagor o wybodaeth y dylid ei chynnwys yn eich barn chi.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 29	27%	19%	54%

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, yn enwedig ymhlith ymatebwyr sy'n gredydwyd yn y sector cyhoeddus a rhai yn y sector gorfodi ond roedd bron pob un o'r ymatebwyr wedi codi'r un pwyntiau i'w hystyried. Yn ogystal â'r wybodaeth a oedd wedi'i hawgrymu'n barod, teimlwyd yn gryf y dylai fod yn ofyniad sylfaenol bod y landlord yn rhoi gwybod am y swm sy'n ddyledus a'r cyfnod rhent yr oedd yn berthnasol iddo. Roedd cryn gefnogaeth hefyd i'r cynnig bod indemniad i'w ddarparu i'r beili i'w ddiogelu am unrhyw gamau a gymerir ar ran y landlord y cafwyd wedyn eu bod yn anghywir. Mewn awgrymiadau eraill gofynnwyd am gynnwys manylion am yr eiddo yr oedd rhent yn ddyledus amdano ac a oedd yr awdurdodiad i weithredu'n cynnwys un ymweliad neu gamau ychwanegol gan y beili ynghylch y ddyled.

Cytunwyd y dylai'r awdurdodiad gan y landlord fod yn ysgrifenedig ond y dylai ffurflen electronig, heb lofnod, fod yn ddigonol.

C.30 Ydych chi'n cytuno â'r isafswm cyfnod rhent o saith niwrnod mewn dyled? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dadl arall ategol.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 30	23%	28%	49%

Fel y mae'r siart isod yn dangos, cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn yn y rhan fwyaf o sectorau.

C.30 Ydych chi'n cytuno â'r isafswm cyfnod rhent o saith niwrnod mewn dyled?

Unanswered	Heb ei ateb
No	Nac ydw
Yes	Ydw

Enforcement sector	Sector gorfodi
Creditor (Public)	Credydwr cyhoeddus
Creditor (Private)	Credydwr preifat
Debtor	Dyledwr
Advice	Sector cynghori
Judiciary	Y Farnwriaeth
Representative Bodies	Cyrff cynrychiadol
Ombudsman organisations	Cyrff Ombwdsmyrn
Members of the Public	Aelodau o'r Cyhoedd
Members of Parliament	Aelodau Seneddol

Roedd y rheini a oedd o blaid yr isafswm cyfnod rhent hwn yn teimlo ei fod yn rhoi cyfle ychwanegol i dalu i'r dyledwr ynghyd â hyblygrwydd i arfer disgresiwn lleol drwy bennu cyfnodau hirach os oedd angen. Fodd bynnag, nodwyd gan rai y gallai fod yn rhesymol ymestyn y cyfnod hwn ar gyfer eiddo masnachol oherwydd fel arfer ni fydd tenantiaid o'r fath yn cael cynifer o gyfleoedd i dalu â thenantiaid preswyl.

Gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch a oedd hyn yn golygu saith diwrnod cyn y gellid cymryd camau neu saith diwrnod cyn y gellid rhoi rhybudd am gamau gweithredu. Roedd nifer o ymatebwyr, yn enwedig credydwr, yn teimlo, os mai'r ail a olygid, y byddai hynny'n achosi oedi annerbyniol wrth adennill dyledion. Rhai o'r dadleuon eraill yn erbyn pennu'r cyfnod hwn oedd y byddai'n hyrwyddo'r syniad bod graddau o ddyled/talu hwyr a oedd yn dderbyniol, ei fod yn rhoi amser i'r dyledwr ffoi neu symud nwyddau ac y gallai fod yn groes i ddarpariaethau mewn cytundebau tenantiaeth. Teimlai nifer o ymatebwyr sy'n gredydwr cyhoeddus neu'n rhan o'r sector gorfodi y dylid parhau â'r cyfnod presennol o un diwrnod.

C.31 Ydych chi'n cytuno â chynnwys y rhybudd i'r is-denant? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu rhagor o wybodaeth y dylid ei chynnwys yn eich barn chi.

C.32 Ydych chi'n cytuno â chynnwys yr hysbysiadau a'r rhybuddion? Os nad ydych chi, a fydddech chi gystal â chynnig cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 31	45%	2%	53%
Cwestiwn 32	54%	13%	33%

Roedd ymatebwyr o blaid y cynigion hyn. Er hynny, mynegwyd pryderon nad oedd y cynigion presennol yn delio â rhai sefyllfaoedd cymhleth. Er enghraifft, os na fydd yr is-denant yn cydymffurfio, nid oes rheoliadau i alluogi'r landlord/asiant gorfodi i gymryd camau yn ei erbyn i sicrhau taliad – yr unig

ffordd i ddatrys hyn fyddai adfeddiannu'r eiddo oddi wrth y tenant. Teimlwyd hefyd fod hyn yn dwysáu'r broblem bresennol yng nghyswllt Hysbysiadau Adran 6 dan Ddeddf Diwygio Cyfraith Atafaelu 1908 lle y mae is-denant yn talu ei rent i'w landlord uniongyrchol sydd wedyn yn methu talu rhent i'r uwchlandlord. Mae'r rheoliadau'n pennu y bydd hysbysiad o'r fath yn dod i rym 14 o ddiwrnodau ar ôl cyflwyno'r hysbysiad.

Roedd croeso cyffredinol i'r bwriad i safoni hysbysiadau, gan roi mwy o eglurder i ddyledwyr. Roedd nifer o asiantau gorfodi am gael mwy o eglurder ynghylch yr hyblygrwydd a fyddai ganddynt ynghylch fformat yr hysbysiadau hyn – er enghraifft, a fyddent yn gallu eu newid i gynnwys pennawd y cwmni, etc. Roedd nifer o ymatebwyr yn y sector cynghori'n pryderu ynghylch awgrymiadau y gellid ailfformatio'r hysbysiadau, gan ofni y byddai gwybodaeth hanfodol yn cael ei gwrthio o'r golwg yn y "print mân". Roedd y sector cynghori hefyd am weld y wybodaeth yn cael ei hailysgrifennu mewn iaith glir ac yn cynnwys manylion ynghylch lle i gael cyngor am ddim.

Ffioedd

Gweithgareddau craidd

- C.33** Ydych chi'n cytuno bod y set o weithgareddau craidd yn y strwythur costau'n cwmpasu'r holl weithgarwch gorfodi a wneir ni waeth beth yw'r ddyled? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.
- C.34** Ydych chi'n cytuno â grwpio'r gweithgareddau hyn yn gamau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.
- C.35** Ydych chi'n cytuno bod y gweithgareddau wedi cael eu grwpio'n gywir? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 33	50%	23%	27%
Cwestiwn 34	63%	6%	31%
Cwestiwn 35	58%	9%	33%

At ei gilydd, roedd ymatebwyr yn fodlon ar y gweithgareddau craidd a oedd wedi'u pennu a'r ffordd yr oeddent wedi'u grwpio'n gamau. Ystyrid bod y strwythur ffioedd yn hawdd ei ddeall, yn dryloyw ac wedi'i bwysoli fel ei fod yn cymhell dyledwyr i gymryd rhan yn y broses yn gynnar. Nododd nifer o ymatebwyr sy'n gredydwyr yn y sector cyhoeddus a nifer yn y sector gorfodi eu bod yn falch o weld y cynnydd ar fersiwn tebyg o'r strwythur hwn sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Er hynny, mynegwyd pryderon. Teimlai nifer o ymatebwyr yn y sector cynghori fod y gweithgareddau yn y cam cydymffurfio/gweinyddu yn rhy oddefol ac nad oeddent yn cymhell asiantau gorfodi i ymwneud â'r dyledwr. Teimlwyd y gallai asiantau gorfodi beidio â rhoi fawr o sylw i'r cam hwn a rhuthro ymlaen i'r cam

gorfodi i sicrhau'r ffi fwy. Roedd rhywfaint o awydd am weld yr ymweliad cyntaf yn cael ei gynnwys yn y cam cydymffurfio/gweinyddu, yn hytrach na'r cam gorfodi, ac am negodi opsiynau ar gyfer ad-dalu ar y pwynt cynharach hwn yn y broses.

Roedd nifer o asiantau gorfodi a chredydwy'r am weld cyfyngiadau i atal awdurdodau lleol rhag hawlio ffi'r cam cydymffurfio/gweinyddu iddyn nhw eu hunain. Mynegwyd pryderon ganddynt hefyd nad oedd ceisiadau i'r llys (ynghylch mynediad/aifynediad drwy rym a therfynau amser ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau) na gwariadau trydydd parti (lorri i dynnu ceir, etc) wedi'u cynnwys yn y strwythur ffioedd hwn. Nid oedd yr ymatebwyr hyn yn glir ynghylch pwy yr oedd disgwyl iddynt dalu'r costau hyn. Hefyd nododd nifer o ymatebwyr, mewn gwahanol gategoriâu, nad oeddent yn glir ynghylch sut y byddai achosion lle'r oedd nifer o warantau'n cael eu trafod.

Dileu ffioedd

C.36 Ydych chi'n teimlo bod angen dileu? Os ydych chi, a wnewch chi gynnig cynigion ynghylch lefel y dystiolaeth ofynnol i brofi bod iechyd meddwl wedi cyfrannu at ddiffyg ymgysylltiad.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 36	67%	9%	24%

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gweld yr angen am ddileu ffioedd. Y mathau o dystiolaeth a awgrymwyd amlaf oedd llythyr oddi wrth weithiwr cymdeithasol neu feddyg a phrawf bod yr unigolyn yn derbyn budd-daliadau penodol. Awgrymwyd dewisiadau eraill fel sefydlu uned bwrpasol ym mhob cwmni gorfodi i drafod achosion sy'n cynnwys pobl fregus. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo nad oedd dileu ffioedd yn dderbyniol, gan nodi nad oedd yn addas cymryd camau gorfodi mewn achosion o'r fath o gwbl.

Costau

C.37 Ydych chi'n cytuno bod y symiau penodedig sydd wedi'u priodoli i bob cam yn briodol? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C.38 Ydych chi'n cytuno bod y costau canrannol sydd wedi'u gosod ar gyfer y camau perthnasol yn briodol a bod y trothwy wedi'i osod yn gywir? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.

C.39 A oes angen proses costau eithriadol? Os oes, a wnewch chi roi cynigion ar gyfer sut byddai cynllun o'r fath yn gweithredu gan gynnwys y trothwyon ar gyfer proses o'r fath.

	Ydw/Oes	Nac ydw/ Nac oes	Dim ymateb
Cwestiwn 37	46%	35%	19%

	Ydw/Oes	Nac ydw/ Nac oes	Dim ymateb
Cwestiwn 38	49%	26%	25%
Cwestiwn 39	46%	18%	36%

Y grwpiau a oedd yn fwyaf cefnogol i'r ffioedd newydd oedd y sector gorfodi, credydwr y sector cyhoeddus, y farnwriaeth a chyrrff ombwdsmyn ac roedd y rheini a oedd yn tueddu i fod yn lleiaf cefnogol yng nghategoriâu'r sector cynghori ac aelodau o'r cyhoedd.

C.37 Ydych chi'n cytuno bod y symiau penodedig sydd wedi'u priodoli i bob cam yn briodol?

Unanswered	Heb ei ateb
No	Nac ydw
Yes	Ydw
Enforcement sector	Sector gorfodi
Creditor (Public)	Credydwr cyhoeddus
Creditor (Private)	Credydwr preifat
Debtor	Dyledwr
Advice	Sector cynghori
Judiciary	Y Farnwriaeth
Representative Bodies	Cyrrff cynrychiadol
Ombudsman organisations	Cyrrff Ombwdsmyn
Members of the Public	Aelodau o'r Cyhoedd
Members of Parliament	Aelodau Seneddol

Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gweld bod angen strwythur diwygiedig, mynegwyd rhai pryderon. Roedd amheuan ynghylch y ffigurau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r costau. Roedd y sector cynghori yn erbyn cynnwys costau cyfarwyddwyr a dywedodd fod yr holl gostau wedi'u cyfrifo ar sail y math drutaf o broses gorfodi (damweiniau traffig ffyrdd) tra oedd asiantau gorfodi'n pryderu nad oedd costau am geisiadau llys wedi'u hystyried.

Nodwyd bod gosod ffioedd safonol ar gyfer pob cam a phob math o ddyled yn golygu nad oedd fawr o gymhelliad i ddyledwyr setlo'n gynnar ym mhob cam gan y byddent yn gorfod talu'r un swm â rhai sy'n setlo'n ddiweddarach. Bellach byddai rhai dyledwyr sydd â mathau penodol o ddyled yn gorfod talu ffioedd mwy o lawer nag o'r blaen, a chan nad oedd pob math o ddyled yn galw am gyflawni'r holl weithgareddau craidd sydd wedi'u rhestru, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai hyn yn arwain at gyfradd elw annerbyniol i gwmnïau gorfodi. Teimlwyd y byddai'r ffactorau hyn yn ogystal â lefel y ffioedd, sy'n anghymesur o uchel ym marn rhai cyrrff cynghori, yn gallu arwain at lai o weithgarwch i adennill dyledion.

Oherwydd eu pryder am ddyledwyr y dreth gyngor, roedd nifer o ymatebwyr yn y sector cynghori'n gwrthwynebu'r ffi ganrannol/trothwy arfaethedig. Teimlwyd y byddai hyn yn rhoi baich afresymol ar ysgwyddau dyledwyr sydd eisoes mewn trafferthion. Roedd credydwyr y sector cyhoeddus yn gefnogol i'r ffi ganrannol gan mwyaf ond yn teimlo y dylai'r trothwy fod yn uwch. Roedd eraill am weld y ffi ganrannol yn cael ei chyflwyno ar raddfa symudol a theimlai rhai ymatebwyr y dylai fod yn gyfyngedig i ddyledwyr masnachol. Cyfeiriodd nifer bach o ymatebwyr at wall cyfrifo yn y ffi ganrannol ar gyfer senarios D3–D6 yn Nhablau 3 a 47 yn *Enforcement Fee Structure Review*. Mae'r ffigurau cywir yn y troednodyn isod.³ Roedd Tabl 3 wedi'i atgynhyrchu yn yr asesiad o effaith yn y cam ymgynghori.

Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon a fynegwyd gan y sector gorfodi'n ymwneud â ffi'r cam gwerthu, a oedd yn cael ei hystyried yn rhy isel o lawer am y gweithgareddau a oedd wedi'u cynnwys. Holodd rhai ymatebwyr a ellid cynnwys rhai o'r costau hyn (e.e. costau lorri dynnu) yn y broses costau eithriadol, er bod rhai ymatebwyr o blith credydwyr cyhoeddus ac yn y sector cynghori'n anghytuno ar y cynnig hwn. Yng nghyswllt costau eithriadol, roedd gwahaniaeth barn ymysg beiliaid ynghylch a ddylent gyfeirio i'r llys cyn codi ffioedd o'r fath tra oedd nifer o gredydwyr cyhoeddus am weld achosion o'r fath yn cael eu cyfeirio'n ôl atyn nhw cyn gwneud penderfyniad.

Roedd y posibilrwydd y gallai awdurdodau lleol hawlio'r ffi am y cam cydymffurfio/gweinyddu yn peri pryder i nifer o asiantau gorfodi a chodwyd y mater hwn droeon mewn ymateb i nifer o'r cwestiynau hyn am gostau.

C.40 Ydych chi'n cytuno â'r gwahaniaethau yn y strwythur costau rhwng dyledion Uchel Lys a dyledion heb fod yn rhai Uchel Lys? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C.41 Ydych chi'n meddwl y bydd y strwythur costau'n cael effaith andwyol ar adennill dyledion mewn achosion Ardrethi Annomestig? Os ydych chi, rhowch fanylion.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 40	32%	24%	44%
Cwestiwn 41	14%	47%	39%

Cafwyd ymateb cymysg i gwestiwn 40. Nodwyd gan nifer fod camau gorfodi dan yr Uchel Lys yn gallu bod yn ddrutach, oherwydd cyfrifoldeb personol y swyddog gorfodi tuag at y credydwr a'r gofyniad bod y credydwr yn talu'r costau gweinyddu am gamau gorfodi aflwyddiannus. Fodd bynnag, roedd nifer

³ Y ffigurau cywir yw:
Tabl 3, senarios D3–D5: £605, senario D6: £1,010;
Tabl 47, senarios D3–D5: £3,980; senario D6: £7,760.

o ymatebwyr yn cwestiynu maint y gwahaniaeth o ran ffioedd ac roedd eraill yn amau'r dystiolaeth a oedd yn sail i'r haerriad hwn.

Teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr na fyddai'r strwythur costau'n cael effaith negyddol o ran adennill dyledion am Ardrethi Annomestig a dywedodd nifer ohonynt fod y broses yn cynnig nifer o gyfleoedd i dalu i ddyledwyr ac mai dim ond y ffi gychwynol o £75 a fyddai'n cael ei chodi ar y rhan fwyaf ohonynt. Roedd y rheini a oedd yn anghytuno'n teimlo bod y ffioedd yn ormod i fusnesau bach fel y byddai llawer ohonynt yn gorfod cau ac fel na fyddai rhai credydwyr yn gallu ceisio adennill y ddyled yn y lle cyntaf. Dywedodd rhai beiliaid y byddai'r ffi isel am y cam gwerthu'n atal camau i symud nwyddau gan danseilio'r bygythiad i gymryd camau gorfodi.

C.42 Ydych chi'n cytuno â'r gorchymyn ar gyfer talu arian pan geir taliadau rhannol? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 42	49%	18%	33%

Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr ar y cynnig ar gyfer talu yn ôl cyfrannau. Gwelwyd bod hynny'n decach â'r credydwr gan ei fod yn sicrhau ei fod yn adennill rhan o'r ddyled o leiaf ac am ei fod yn dileu unrhyw gymhelliad i'r beili roi'r gorau i geisio adennill y ddyled ar ôl derbyn ffioedd. Cafwyd awgrym am drefniant arall gan nifer o ymatebwyr lle y byddai taliadau'n cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y credydwr a'r asiant gorfodi. Ar ôl talu'r ffioedd byddai'r cyfan yn dychwelyd i'r credydwr. Roedd rhai asiantau gorfodi am weld pennu taliad isaf ar gyfer sefyllfa lle y mae'r awdurdod lleol yn galw'r ddyled yn ôl – er enghraifft, bod ffi'r cam cydymffurfio'n cael ei thalu'n llawn.

Chwyddiant ac adolygu

C.43 A ddylai'r strwythur costau gael ei ddiweddarau er mwyn ystyried chwyddiant cyn ei weithredu?

C.44 A ddylai'r strwythur costau gael ei ddiweddarau'n flynyddol drwy ei fynegeo i fesur chwyddiant?

C.45 Ydy tair blynedd yn gyfnod addas ar gyfer adolygu'r strwythur costau'n llawn a'i addasu efallai? Os nad ydyw, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.

	Dylai/Ydy	Na ddylai/ Nac ydy	Dim ymateb
Cwestiwn 43	51%	23%	26%
Cwestiwn 44	55%	19%	26%
Cwestiwn 45	51%	21%	28%

Roedd llawer o gefnogaeth i'r cynnig i ddiweddarau'r strwythur costau'n unol â chwyddiant ac i'w ddiweddarau'n rheolaidd yn y dyfodol. Roedd credydwy cyhoeddus ac asiantau gorfodi'n neilltuol o gefnogol i hyn. Gan fod y ffioedd wedi'u cyfrifo yn 2009, teimlwyd bod angen eu diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â chostau ac yn rhoi tâl digonol i asiantau gorfodi am waith sydd wedi'i gyflawni. Roedd y sector cynghori'n llai cefnogol, a nodwyd bod y ffioedd yn uchel eisoes ac mai ychydig iawn o ddyledwyr sydd wedi gweld eu hincwm yn cynyddu'n unol â chwyddiant. Roedd rhywfaint o amharodrwydd hefyd ar draws y sectorau i gefnogi diweddariad blynyddol o'r strwythur costau. Ofnwyd y gallai hyn beri dryswch ymhlith dyledwyr, y byddai'n creu problemau mewn achosion lle y mae dyledion yn rhychwantu nifer o flynyddoedd, ac yn gosod baich gweinyddol trwm ar gwmnïau gorfodi.

Roedd yr awgrymiadau am gyfnod addas ar gyfer adolygu'r strwythur costau'n amrywio o un i bum mlynedd, a thair a phum mlynedd oedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin. Dadleuwyd y byddai hyn yn caniatáu i'r system ymsefydlu'n iawn ac yn lleihau'r baich gweinyddol ar gwmnïau gorfodi.

Rheoleiddio

C.46 A ydych chi'n ystyried bod opsiynau eraill neu opsiynau llai rheoleiddiol a fyddai'n addas i asiantau gorfodi? Os ydych chi, darparwch gynigion.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 46	4%	69%	27%

Prin iawn oedd y gefnogaeth ar gyfer opsiynau eraill neu opsiynau llai rheoleiddiol. Un o'r opsiynau a gynigiwyd oedd cyflwyno system ardystio ar gyfer Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys. Yn wir, roedd y sector cynghori a rhai cwmnïau beiliaid am weld mwy o reoleiddio a dywedodd nifer ohonynt mai cyflwyno un rheoleidiwr annibynnol oedd yr ateb gorau.

Ardystio

C.47 Ydych chi'n cytuno y dylai'r cais am dystysgrif gael ei wneud gan yr asiant gorfodi yn y llys sy'n lleol i'r ardal lle bydd yn cynnal prif ran ei fusnes? Os na, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.

C.48 Ydych chi'n cytuno mai Barnwyr Rhanbarth arbenigol ddylai ddelio â cheisiadau am dystysgrif? Os nad ydych, esboniwch pam gan ddarparu dadl i gefnogi hynny.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 47	31%	41%	28%
Cwestiwn 48	65%	7%	28%

Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno ar yr awgrymiadau ynghylch ardystio. Dywedodd nifer o ymatebwyr yn y sector cynghori nad oeddent o blaid y system ardystio bresennol o gwbl ac nad oeddent am iddi gael ei hadolygu. Y prif gwynion ganddynt oedd ei bod yn rheoleiddio unigolion yn hytrach na chwmmiâu a'i bod yn aml yn fater o roi sêl bendith yn awtomatig heb ddim i atal beiliaid diegwyddor sydd wedi colli eu tystysgrif rhag gwneud cais newydd mewn lle arall. Roedd yr ymatebwyr hyn yn galw am fwy o reoleiddio neu, yn niffyg hynny, am gronfa ddata genedlaethol a allai gyfrannu at ddatrys y problemau hyn.

At ei gilydd, nid oedd ymatebwyr yn y sector gorfodi'n teimlo ei bod yn ymarferol gwneud cais mewn llys lleol gan fod y rhan fwyaf o feiliaid yn gweithio mewn nifer o ardaloedd. Er hynny, ystyrid ei bod yn syniad da bod Barnwyr Rhanbarth arbenigol yn delio â cheisiadau. Teimlwyd y byddent yn sicrhau mwy o gysondeb ac y byddai ganddynt wybodaeth fwy manwl am eu gwaith fel y gellid cael craffu mwy trwyadl a gwell amddiffyniad i ddyledwyr. Dadleuai eraill y dylai pob barnwr fod â chymhwysedd digonol a mynegwyd pryderon gan rai ynghylch costau.

C.49 A oes gennych chi unrhyw sylwadau am y naill neu'r llall o'r cynigion sydd wedi'u cyflwyno gan Gymdeithas Parcio Prydain?

	Oes	Nac oes	Dim ymateb
Cwestiwn 49	10%	41%	49%

Roedd ymatebwyr ar draws y sectorau'n anghytuno ar y cynigion hyn. Y pryder pennaf ymysg asiantau gorfodi oedd bod Cymdeithas Parcio Prydain yn annhebygol o ddeall natur gymhleth y diwydiant. Roedd eraill yn cytuno nad Cymdeithas Parcio Prydain oedd y rheoleiddiwr annibynnol yr oedd llawer ohonynt am ei weld. Roedd pryderon mawr ynghylch cost y cynnig a dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent yn glir ynghylch sut y byddai'n cael ei ariannu.

Hyfforddiant

C.50 Ydych chi'n cytuno bod y meini prawf cymhwysedd yn lefel dderbyniol ar gyfer cael mynediad i'r proffesiwn?

C.51 Ydych chi o'r farn bod yn rhaid cael hyfforddiant gorfodol i sicrhau bod asiant gorfodi'n addas ac yn briodol i ddal tystysgrif? Os na, darparwch gynigion eraill.

C.52 Ydych chi o'r farn y dylai asiant gorfodi ymgymryd â rhagor o hyfforddiant neu ddatblygiad ar ôl iddo gael y dystysgrif? Os ydych chi, darparwch gynigion.

Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
-----	---------	------------

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 50	70%	5%	25%
Cwestiwn 51	76%	2%	22%
Cwestiwn 52	70%	7%	23%

Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr o blaid y cynigion ar feini prawf cymhwysedd, hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant dilynol sydd yn y papur ymgynghori. Ymhlith yr awgrymiadau ychwanegol yr oedd rhai am hyfforddiant i staff swyddfa sy'n delio'n gyson ag aelodau o'r cyhoedd, a gofyniad am adnewyddu tystysgrif y beili'n rheolaidd. Roedd nifer o ymatebwyr yn y sector gorfodi'n awyddus i gael hyblygrwydd i redeg cyrsiau mewnol neu hyfforddiant mewn swydd drostynt eu hunain, i'w hasesu wedyn. Teimlwyd bod arholiadau presennol y Gymdeithas Gorfodaeth Sifil (CIVEA)/Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV) yn feincnod defnyddiol ar gyfer gosod safonau ac y gellid gwneud y rhain yn orfodol. Yn gyffredinol, roedd hyfforddiant diweddarau'n cael ei ystyried hanfodol ac roedd y cyfnodau a awgrymwyd ar gyfer ei gynnal yn amrywio o un i bum mlynedd.

Cafwyd ychydig o ymatebion gan feiliaid a oedd yn teimlo nad oedd hyfforddiant yn angenrheidiol ac mai ardystio gan farnwr oedd y ffordd orau o sicrhau safonau tra oedd rhai ymatebion gan y sector cynghori'n datgan na fyddai'r cynigion hyn yn gweithio heb sefydlu rheoleiddiwr annibynnol.

Cwynion

C.53 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar y strategaeth ar gyfer delio â chwynion? Os nad ydych, darparwch gynigion eraill a dadl i gefnogi hynny.

	Ydw	Nac ydw	Dim ymateb
Cwestiwn 53	58%	23%	19%

Teimlai nifer o ymatebwyr nad oedd y cynigion ar gyfer trefn wirfoddol yn ddigonol ac nad oeddent yn delio â nifer o faterion. Credwyd na fyddai trefn o gyflwyno cwynion i gymdeithas fasnach yn ddigonol gan na fyddai'n delio â beiliaid a oedd heb fod yn aelodau ohoni. Hefyd, roedd y ffaith bod nifer o gymdeithasau masnach gwahanol yn golygu bod posibilrwydd o ddiffyg cysondeb wrth ddelio â chwynion. Rhai o'r awgrymiadau am drefnau gwahanol oedd sefydlu rheoleiddiwr annibynnol neu, ar y cam olaf o leiaf, goruchwyliaeth gan gorff annibynnol. Cafwyd awgrym gan rai ymatebwyr yn y sector cynghori am sefydlu ombwdsmon gwasanaethau gorfodi neu, os nad oedd hyn yn bosibl, defnyddio cyrff presennol fel Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol neu'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Nodwyd na ddylai'r weithdrefn gwynion fod yn rhy ddrud. Awgrymwyd y gellid ariannu rheoleiddiwr newydd drwy system ffioedd debyg i'r un ar gyfer Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Yr Uchel Lys

C.54 Ydych chi'n ystyried y dylid diwygio'r gorchymyn awdurdodaeth? Os ydych chi, rhowch fanylion a dadl gefnogol.			
Categori'r ymatebydd	Ydw %	Nac ydw %	Dim ymateb %
Sector cynghori	27%	20%	53%
Credydwr preifat	19%	19%	62%
Credydwr cyhoeddus	26%	7%	67%
Dyledwr	17%	0%	83%
Sector gorfodi	73%	11%	16%
Y Farnwriaeth	17%	0%	83%
Aelodau Seneddol	0%	0%	100%
Aelodau o'r Cyhoedd	13%	16%	71%
Cyrff ombwdsmyrn	0%	25%	75%
Cyrff cynrychiadol	33%	20%	47%
Cyfanswm	32%	12%	56%

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid cynigion i ddiwygio'r gorchymyn awdurdodaeth. Er bod mwyafrif clir o blaid yn yr ymatebion gan y sector gorfodi, credydwr cyhoeddus a dyledwr, cafwyd ymatebion cymysg gan nifer o sectorau eraill.

Roedd y rheini a oedd o'u plaid yn falch o weld mabwysiadu system sengl a fyddai'n haws ei deall ac yn rhoi mwy o ddewis i gredydwr. Roedd asiantau gorfodi'n cefnogi'r camau i ganiatáu iddynt drafod amrywiaeth ehangach o achosion. Fodd bynnag, roedd nifer o bryderon gan y rhai a wrthwynebai'r cynigion. Ystyrid bod system yr Uchel Lys yn llai effeithiol, yn anodd ei herio ac yn anghymesur o ddrud i'r dyledwr. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai'r newid hwn yn dileu mesurau diogelwch sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Credyd Defnyddwyr 1974. Roedd ymatebwyr eraill yn barod i ystyried y newid ond ar yr amod bod gostyngiad yn ffioedd Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys.

Asesu Effaith

C.55 Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir yr amrediad effeithiau dan y cynigion yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C.56 Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir maint yr effeithiau dan y cynigion hyn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C.57 Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth o effeithiau cydraddoldeb nad ydynt wedi cael eu pennu yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb? Os oes, sut gellid eu lliniaru?

	Ydw/Oes	Nac ydw/ Nac oes	Dim ymateb
Cwestiwn 55	49%	17%	34%
Cwestiwn 56	48%	14%	38%
Cwestiwn 57	4%	53%	43%

Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr fod yr Asesiad o Effaith yn pennu amrediad a maint yr effeithiau dan y cynnig hwn. Er hynny, cafwyd awgrymiadau gan nifer o ymatebwyr am feysydd i'w hystyried ymhellach tra oedd eraill, yn enwedig y sector cynghori, credydwyr cyhoeddus ac aelodau o'r cyhoedd, wedi enwi meysydd a oedd heb eu hystyried o gwbl yn eu barn nhw. Mae'r awgrymiadau hyn wedi'u rhestru yn y tabl isod.

Effeithiau posibl a allai alw am ystyriaeth newydd neu ychwanegol	
Effaith...	ar...
Ffioedd uwch	Dyledwyr
Dim system annibynnol ar gyfer unioni neu drafod cwynion	Dyledwyr
Dim rheoleiddiwr annibynnol	Dyledwyr, asiantau gorfodi a chredydwyr
Y broses ardystio well	Asiantau gorfodi a dyledwyr
Gweithredu gan feiliaid	Dyledwyr bregus, pobl sy'n rhannu tŷ â dyledwyr (teulu'r dyledwr, tenantiaid preifat eraill)
Credydwyr yn camddefnyddio'r strwythur ffioedd	Asiantau gorfodi a dyledwyr
Rheoliadau newydd	Ymddygiad dyledwyr
Trafod nifer o warantau mewn un achos	Asiantau gorfodi a dyledwyr
TAW	Dyledwyr, asiantau gorfodi a chredydwyr

Nid oedd dystiolaeth gan y rhan fwyaf o ymatebwyr o effeithiau ar gydraddoldeb a oedd heb eu nodi yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Roedd y rheini a roddodd ateb cadarnhaol i gwestiwn 57 wedi awgrymu ffynonellau data eraill y gellid eu hystyried er mwyn nodi effeithiau o'r fath. Ymhlith y rhain yr oedd dadansoddiad yn 2007 gan Cyngor ar Bopeth o

broffiliau cleientiaid y cymerwyd camau gorfodi yn eu herbyn gan feiliaid am beidio â thalu'r dreth gyngor, y data a gasglwyd ar gyfer yr arolwg o gyfiawnder sifil a chymdeithasol sy'n priodoli'r rhan fwyaf o broblemau dyled i salwch, anabledd a newid mewn amgylchiadau, ac ymchwil gan Policis ar ran y Money Advice Trust sy'n edrych ar faint y bregusrwydd ymysg cleientiaid sydd mewn dyled ac yn cynnig chwe diffiniad gwahanol o fregusrwydd. Teimlwyd y gallai'r astudiaethau ymchwil hyn fod o gymorth wrth asesu effeithiau ar gydraddoldeb.

Manylion cyswllt Cydgysylltydd yr Ymgynghoriad

Os oes gennych unrhyw sylwadau am y dull o gynnal yr ymgynghoriad hwn dylech gysylltu â Sheila Morson ar 020 3334 4498, neu anfon neges e-bost ati yn: sheila.morson@justice.gsi.gov.uk.

Neu cewch ysgrifennu ati yn y cyfeiriad isod:

**Ministry of Justice
Consultation Co-ordinator
Better Regulation Unit
Analytical Services
7th Floor, 7:02
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ**

Y meini prawf ymgynghori

Mae'r saith maen prawf ymgynghori fel a ganlyn:

1. **Pryd i ymgynghori** – Dylid cynnal ymgynghoriadau ffurfiol ar adeg pan mae modd dylanwadu ar ganlyniad y polisi.
2. **Hyd ymarferion ymgynghori** – Dylai ymgynghoriadau bara am o leiaf 12 wythnos fel rheol, gan ystyried amserlenni hwy pan fydd hynny'n ymarferol ac yn ddoeth.
3. **Eglurder ynglŷn â'r cwmpas a'r effaith** - Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynglŷn â'r broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei gynnig, y gallu i ddylanwadu a chostau a buddiannau disgwylidig y cynigion.
4. **Hygyrchedd ymarferion ymgynghori** – Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori i fod yn hygyrch i'r bobl hynny y mae'n fwriad i'r ymarfer eu cyrraedd, ac wedi'u targedu'n glir atynt.
5. **Baich ymgynghori** – Mae'n hanfodol sicrhau bod yr ymgynghoriad yn achosi cyn lleied o faich â phosibl er mwyn i ymgynghoriadau fod yn effeithiol, ac er mwyn sicrhau bod ymgynghoreion yn cyfrannu at y broses.
6. **Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori** – Dylid dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad yn ofalus gan roi adborth clir i'r rhai sydd wedi cymryd rhan ar ôl yr ymgynghoriad.
7. **Gallu i ymgynghori** – Dylai swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau geisio arweiniad ynglŷn â sut i gynnal ymarfer ymgynghori'n effeithiol a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu o'r profiad.

Rhaid cynnwys y meini prawf hyn ym mhob dogfen ymgynghori.

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Categori	Nifer yr ymatebion
Sector cynghori	30
Credydwr preifat (<i>busnesau, landlordiaid preifat, cwmnïau eiddo, gwasanaethau cyfreithiol sydd â chleientiaid sy'n gredydwyr yn y sector preifat</i>)	20
Credydwr cyhoeddus (<i>awdurdodau lleol, asiantaethau llywodraeth, gwasanaeth llysoedd</i>)	96
Dyledwr (<i>unigolion neu gwmnïau sydd wedi nodi bod ganddynt brofiad o fod yn ddyledwr</i>)	6
Sector gorfodi (<i>cwmnïau gorfodi, asiantau gorfodi unigol, cyflenwyr y sector gorfodi</i>)	45
Y Farnwriaeth	6
Aelodau Seneddol	1
Aelodau o'r Cyhoedd (<i>unigolion sydd heb nodi a ydynt yn gredydwyr neu'n ddyledwyr</i>)	31
Cyrff ombwdsryn (<i>gwasanaethau ombwdsryn</i>)	4
Cyrff cynrychiadol (<i>undebau llafur, grwpiau lobiö, cymdeithasau proffesiynol ar gyfer credydwyr, dyledwyr, y sector gorfodi a'r sector cyhoeddus</i>)	15

Atodiad B – Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Dydd iad	Sector	Corff Rhanddeiliaid / Grŵp Cynrychiadol
22/2	Credydwr cyhoeddus	Grŵp Buddiant Arbennig Awdurdodau Lleol Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi rheoliadau traffig
28/2	Sector cynghori	Ymddiriedolaeth Zaccheus 2000 Cyngor ar Bopeth [cyfarfod â'r Arglwydd McNally]
07/3	Sector gorfodi	Cymdeithas Gorfodi Sifil Cwmnïau beiliaid
08/3	Sector gorfodi [a chredydwr preifat]	Grŵp Cyswllt Cymdeithas Defnyddwyr y Llysoedd Sifil
23/3	Sector gorfodi, credydwr cyhoeddus a phreifat, a'r sector cynghori	Grŵp Diwygio Cyfraith Gorfodi
29/3	Llywodraeth	Gweithgor Rhyngadrannol
30/3	Credydwr cyhoeddus	Gweithgor Awdurdodau Lleol
18/4	Sector gorfodi [a'r sectorau cyhoeddus a phreifat]	Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Parcio Prydain – cyfarfod cyhoeddus.
19/4	Sector gorfodi [a chredydwr preifat]	Cymdeithas Defnyddwyr y Llysoedd Sifil
25/4	Sector gorfodi a chredydwr cyhoeddus	Grŵp Buddiant Arbennig Beiliaid a Gorfodi
25/4	Sector gorfodi, credydwr preifat a chyhoeddus	Cynhadledd Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw Awdurdodau Lleol a'r Diwydiant Gorfodi
27/4	Dyledwyr	Defnyddiwr – Grŵp Dyledwyr
3/5	Credydwr preifat	Ffederasiwn Eiddo Prydain
4/5	Sector gorfodi	Cymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys

Gweddnewid sut mae beiliaid yn gweithredu Ymateb i'r ymgynghoriad

Dydd iad	Sector	Corff Rhanddeiliaid / Grŵp Cynrychiadol
27/9	Sector gorfodi, credydwy'r preifat a'r sector cynghori	Gweithgor UK.gov a Safonau Cenedlaethol ar gyfer Asiantau Gorfodi

© Hawlfraint y Goron 2013
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gellir gweld y drwydded hon yn <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu drwy anfon neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi bod unrhyw ddeunydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd yn rhaid cael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint sy'n gysylltiedig.

**Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill
ar gais drwy ffonio 020 3334 3182 neu anfon
neges e-bost i
EnforcementReform.TCE@justice.gsi.gov.uk**